*This document is available in English*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PANEL GWEITHREDOL** yn cael ei gynnal
**DDYDD LLUN 15 RHAGFYR 2025** am **14:00 o'r gloch**.
yn rhithiol **drwy Zoom**

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

## AGENDA

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiad o Fuddiannau**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
   Hysbysiad o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Medi 2025**

5. **Adroddiad Monitro Perfformiad Ch2 2025/26, er sicrwydd**

6. **Rheoli Risg Strategol – Adolygiad o'r Gofrestr Risg, er sicrwydd**

7. **Gosod Cyllideb 2026/27, er cymeradwyaeth**

8. **Ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub 2026, er cymeradwyaeth**

9. **Materion Brys**
   Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem fusnes/eitemau busnes a ganlyn oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 Rhan 4 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

**Dim**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PANEL GWEITHREDOL**

Cofnodion **Panel Gweithredol** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 15 Medi 2025, yn rhithwir drwy Zoom. Dechreuodd y cyfarfod am 14.00 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Dylan Rees (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Carol Beard | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. Sharon Doleman | Cyngor Sir Conwy |
| Y Cyng. Chris Hughes | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Y Cyng. John Ifan Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyng. Gareth A Roberts | Cyngor Sir Gwynedd |
| Y Cyng. Paul Rogers (cyrhaeddodd am 14:09) | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Gareth Williams | Cyngor Sir Gwynedd |
| Y Cyng. Antony Wren | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Justin Evans | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Anthony Jones | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Mike Plant | Pennaeth Perfformiad, Cynllunio a Thrawsnewid |
| Bethan Millington | Dirprwy Bennaeth Cyfathrebu Corfforaethol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Matthew Powell | Dirprwy Glerc a Swyddog Monitro |
| Steve Morris | Pennaeth TGCh |
| Heledd Davies | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol |

## 1.0 YMDDIHEURIADAU

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Rondo Roberts | Cyngor Sir Wrecsam |
| Y Cyng. Mark Young (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gareth Owens | Clerc a Swyddog Monitro |

**YN ABSENNOL**

| **Enw** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| Y Cyng. Paul Cunningham | Cyngor Sir y Fflint |
| Y Cyng. Alan Hughes | Cyngor Sir Ddinbych |
| Y Cyng. Dale Selvester | Cyngor Sir y Fflint |

## 2.0 DATGANIADAU O FUDDIANT

2.1 Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3.0 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Nid oedd unrhyw hysbysiadau o faterion brys.

**4.0 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 16 MEHEFIN 2025**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Mehefin 2025 i'w cymeradwyo. Cynigiwyd eu bod yn gofnod gwir a chywir o'r trafodion. Eiliwyd hyn a'i basio gyda phawb o blaid.

**4.2 PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd.**

**5.0 MATERION YN CODI**

5.1 Roedd eitem 7 y cofnodion blaenorol a oedd yn ymwneud ag adroddiad y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn cyfeirio at gynllun gweithredu a gofynnwyd a ellid rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch cynnydd y cynllun gweithredu hwnnw.

5.2 Cynghorodd y PSTC JE fod cynnydd yn cael ei wneud ar sail yr argymhellion o ran offer a bod cyllideb wedi'i neilltuo i osod mesuryddion llif mewn peiriannau yn y dyfodol. Roedd gweithgor wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â'r argymhellion a chynnal dadansoddiad bylchau i lywio newidiadau polisi a gofynion hyfforddi yn y dyfodol.

**6.0 YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU YNGLŶN Â'R TREFNIADAU LLYWODRAETHIANT AR GYFER GWASANAETHAU TÂN AC ACHUB YNG NGHYMRU**

6.1 Cyflwynodd y PST Docx y papur ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y trefniadau llywodraethiant ar gyfer gwasanaethau tân ac achub yng Nghymru, a'i bwrpas oedd tynnu sylw'r Aelodau at gyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus ynghylch Trefniadau Llywodraethu ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub (FRS) yng Nghymru yn y dyfodol.

6.2 Nodwyd bod y papur a roddwyd i'r Aelodau wedi'i ysgrifennu cyn rhyddhau'r ymgynghoriad.

6.3 Cynghorwyd yr Aelodau y byddai dau seminar i Aelodau yn cael eu trefnu i drafod yr ymgynghoriad ac ymateb yr Awdurdod iddo a byddai'r rhain yn seminar wyneb yn wyneb ar 29 Medi a seminar rhithwir ar 2 Hydref. Byddai gwahoddiadau yn dilyn maes o law.

6.4 Cadarnhaodd y PST nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn yr ymgynghoriad hwn ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub i Gymru gyfan, nac ar gyfer newid y ffordd y câi’r Awdurdod ei ariannu gan y byddai'r ddau beth yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth sylfaenol na ellid eu gwneud cyn etholiad nesaf y Senedd.

**6.5 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr ymgynghoriad; a**
**ii) Cytuno i ymuno â gweithdy i graffu ar y cynigion a chyflwyno ymateb wedi'i ddrafftio ar ran Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), sy'n nodi barn yr Aelodau ynglŷn â'r cynigion.**

## 7.0 ASESIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2024/25

7.1 Cyflwynodd y PSTC Anthony Jones yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2024/25 i'r Aelodau.

7.2 Nododd Aelod eu pryder mewn perthynas â'r cynnydd mewn tanau gwyllt dros y tair blynedd diwethaf, yr adnoddau y bu'n rhaid eu dyrannu i'r rhain, a'r effaith ariannol y gallent ei chael ar y ffigurau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.

7.3 Cadarnhaodd y PSTC Jones fod y pryder hwnnw’n cael ei rannu gan swyddogion ac roedd hyn yn duedd y gellid ei weld ledled Cymru, ynghyd â chynnydd mewn llifogydd. Cadarnhaodd ymhellach fod swyddogion, cerbydau ac Offer Gwarchod Personol pwrpasol wedi'u dyrannu'n benodol i danau gwyllt i wella ymateb y Gwasanaeth iddynt a'u bod yn cael eu monitro'n agos iawn.

7.4 Ychwanegodd y PSTC fod dull Cymru gyfan wedi'i sefydlu i fynd i'r afael â phroblem tanau gwyllt, ond bod hyn wedi dod yn broblem fwy dros y blynyddoedd. Gallai tanau glaswellt llai hefyd greu problemau oherwydd pe na baent yn cael eu datrys yn ddigon cyflym, gallent droi'n danau gwyllt yn hawdd. Tynnodd hyn sylw at bwysigrwydd darparu gwasanaeth tân gwledig, ac roedd yr Adolygiad o’r Ddarpariaeth Frys/Cydgytundeb bellach wedi dechrau mynd i'r afael â hyn.

7.5 Nododd y Cadeirydd fod tanau gwyllt wedi cael eu hadrodd yn genedlaethol yn ddiweddar, a sylw wedi ei dynnu at y ffaith bod Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn cofnodi eu data mewn ffordd wahanol a gofynnodd i swyddogion edrych ar hyn yn fanylach. Cadarnhaodd y PSTC Evans fod Atal a Diogelu eisoes yn ymchwilio i hyn.

7.6 Gofynnodd Aelod pa waith oedd yn digwydd gydag asiantaethau partner i atal tanau gwyllt ac felly leihau nifer y digwyddiadau, a chadarnhaodd y PSTC Evans fod y Gwasanaeth yn parhau i weithio'n agos gyda'r Fforwm Cydnerthedd Lleol (yr LRF) ac mewn cydweithrediad â Gwasanaethau Brys eraill Cymru o safbwynt atal.

7.7 Nododd y PST fod tynnu'r grant Lleihau Tanau Bwriadol yn ôl wedi cyfyngu ar y gwaith atal y gellid ei wneud. Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n codi hyn yng nghyfarfod nesaf y Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol.

7.8 Gofynnwyd beth oedd y rheswm dros y cynnydd mewn digwyddiadau Iechyd a Diogelwch, a chadarnhaodd y PSTC Jones fod y rhain yn ymwneud yn bennaf â fflyd goch y Gwasanaeth ac yn gyffredinol oherwydd digwyddiadau parcio a symud ar gyflymder isel a arweiniodd at ddifrod bach.

7.9 Tynnodd y Cadeirydd sylw at y ffaith bod gan y Gwasanaeth ganran lawer is o larymau mwg heb eu gosod na Gwasanaethau eraill yng Nghymru a chafodd y tîm atal eu llongyfarch am y gwaith a wnaed yn ystod archwiliadau diogel ac iach.

**7.10 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi a chymeradwyo cynnwys yr Asesiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2024/25 i'w gymeradwyo gan yr Awdurdod.**

## 8.0 MONITRO PERFFORMIAD, 1 EBRILL 2025 – 30 MEHEFIN 2025

8.1 Cynghorodd y Rheolwr Ardal Mike Plant yr Aelodau mai pwrpas yr adroddiad hwn oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am berfformiad ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2025 – 30 Mehefin 2025 (chwarter 1 2025/26). Eglurwyd bod y mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac yn cynnwys sylwebaeth ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu i'r dyfodol.

8.2 Diolchwyd i bawb a fu'n rhan o ddiogelu bywyd ac eiddo yn y tân gwyllt diweddar ym Mynydd Bodafon, digwyddiad difrifol a barodd am dros 30 awr. Gwerthfawrogwyd eu gwaith caled a'u hymrwymiad.

8.3 Gwnaeth Aelod sylw am yr ystadegau mewn perthynas ag ymgysylltu â phlant a gofynnodd a oedd unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella'r rhain. Ymatebodd y Rheolwr Ardal Plant fod ymgyrchoedd wedi digwydd i addysgu'r cyhoedd am y risgiau o gynnau tanau yn yr awyr agored, ond bod lle i wella yn y maes hwn.

8.4 Roedd yr Aelodau'n falch o nodi'r cynnydd o ran cwblhau archwiliadau diogel ac iach a oedd yn flaenoriaeth uchel o fewn y targed a gofynnwyd sut roedd 68% yn cymharu â blynyddoedd blaenorol. Dywedodd y PSTC Evans fod hwn yn ystadegyn boddhaol; fodd bynnag, roedd gwaith pellach yn digwydd i'w gynyddu eto dros weddill y flwyddyn.

**8.5 PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad.**

**9.0 ADRODDIAD A CHYNLLUN BIOAMRYWIAETH**

9.1 Cyflwynodd y PSTC Helen MacArthur yr Adroddiad a'r Cynllun Bioamrywiaeth a cheisiodd argymhelliad ar gyfer cymeradwyo a mabwysiadu Adroddiad Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau statudol y Gwasanaeth (2022-2025) a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth cysylltiedig (2025-2028) yn ffurfiol, gan sicrhau cydymffurfiaeth â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

9.2 Gofynnodd un Aelod a oedd modd diolch i'r rhai sy'n gyfrifol am lunio adroddiad sydd wedi ei ysgrifennu mor dda a chymaint o feddwl wedi mynd iddo am fater sydd o bwys mawr.

9.3 Gofynnwyd a fyddai'r dyddiad cau ar gyfer creu cynefinoedd, gorsafoedd gwyrdd a phlannu coed brodorol erbyn mis Mai 2028 yn cael ei ddwyn ymlaen o gwbl i'w wneud yn fwy uchelgeisiol, a chadarnhaodd y PSTC MacArthur y byddai hyn yn cael ei weithredu os yn bosibl. Fodd bynnag, dylid cofio mai dim ond un rheolwr Amgylchedd a Newid Hinsawdd oedd gan y Gwasanaeth ac felly roedd adnoddau'n brin.

9.4 Gofynnodd y Cadeirydd a ellid cyflwyno diweddariad chwarterol mewn perthynas â Thabl 2 yr adroddiad, a oedd yn manylu ar Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth a Gwydnwch Ecosystemau 2025-2028, i'r Aelodau fel y gellid adolygu'r cynnydd yn rheolaidd, a chytunodd y PSTC MacArthur i greu amserlen adolygu. Gofynnwyd ymhellach a ellid graddio'r tabl yn statws Coch, Melyn, Gwyrdd i nodi cynnydd.

**9.5 PENDERFYNWYD:**

**i) Cefnogi'r Adroddiad a'r Cynllun Bioamrywiaeth drafft i gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod; a**
**ii) Cymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad a'r Cynllun ar wefan y Gwasanaeth nes iddo gael ei ystyried i'w gadarnhau gan yr Awdurdod.**

**10.0 MATERION BRYS**

10.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben: 14:54 o'r gloch

*This document is available in English* **Eitem Agenda 5**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant, Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Monitro Perfformiad, Ebrill 2025 – Medi 2025** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Panel Gweithredol (y Panel) ar berfformiad yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2025 – 30 Medi 2025 (chwarter un a dau blwyddyn ariannol 2025/26). Mae'r mesurau perfformiad yn adlewyrchu'r pum egwyddor allweddol a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 ac maent yn cynnwys sylwebaeth ar dueddiadau sy'n dod i'r amlwg a chamau gweithredu ar gyfer y dyfodol.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 O'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25, mae nifer y digwyddiadau tân wedi cynyddu i 1,313 (845 yn 2024/25). Er bod hyn yn cynrychioli cynnydd cyffredinol o 55.4%, mae'r cynnydd ar gyfer tanau eilaidd yn 99.2%. Mae'r cynnydd mewn tanau eilaidd yn adlewyrchu'r tywydd sych a gafwyd, gyda thanau yn yr awyr agored yn sbarduno'r cynnydd.

3 Mae tanau damweiniol mewn anheddau wedi cynyddu y chwarter hwn o 8.7% o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, a'r Gwasanaeth wedi mynd i gyfanswm o 150 o ddigwyddiadau.

4 Roedd ymateb i alwadau gwasanaeth arbennig yn gyson â'r llynedd, ond bu cynnydd o 21.5% mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd.

5 Mae gwaith yn parhau i gefnogi ein cymunedau gyda chyfanswm o 9,828 o archwiliadau diogel ac iach wedi'u cwblhau yn ystod y cyfnod. Er bod hyn yn ostyngiad o 2.6% mewn termau cyffredinol o'i gymharu â'r un cyfnod yn 2024/25, mae'r pwyslais yn parhau i fod ar ymweliadau blaenoriaeth ganolig ac uchel. Yn ogystal, mae Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth) yn parhau i fod wedi ymrwymo i addysgu drwy ymweliadau ysgolion, cynnal cyrsiau Ffenics ac ymyriadau unigol i ymdrin â chynnau tanau.

**ARGYMHELLIAD**

6 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi cynnwys yr Adroddiad Monitro Perfformiad.**

**CEFNDIR**

7 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) weithio i leihau risg a sicrhau diogelwch cymunedau, a gwneud hynny mewn modd cynaliadwy. Mae'r Cynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) yn amlinellu'r egwyddorion y mae'r Awdurdod yn mesur ei berfformiad yn eu herbyn. Gan ganolbwyntio ar bum egwyddor allweddol, adroddir ar y perfformiad bob chwarter, gyda phwyslais ar risgiau allweddol a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r Adroddiad Perfformiad yn cwmpasu'r cyfnod o 1 Ebrill 2025 – 30 Medi 2025. Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ffigurau'n seiliedig ar ddau chwarter cyntaf blwyddyn ariannol 2025/26, gan gymharu â'r un cyfnod yn y flwyddyn ariannol flaenorol (2024/25).

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'n dangos perfformiad yr Awdurdod yn erbyn yr amcanion gwella a llesiant yng Nghynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol (CRMIP) 2025-26. |
| Cyllideb | Mae'n caniatáu i weithgareddau a risgiau allweddol gael eu hystyried yn rhan o'r broses pennu cyllideb. |
| Cyfreithiol | Mae'n cynorthwyo'r Awdurdod, fel sy'n ofynnol dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, i ddangos y modd y mae'n cymryd pob cam rhesymol, wrth arfer ei swyddogaethau, i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| Staffio | Mae'r adroddiad yn cyd-fynd â Chynllun Gweithredu Rheoli Risg Cymunedol 25/26 ac yn cynnwys diweddariad ar faterion staffio. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Dim goblygiad wedi'i nodi. |
| Risgiau | Mae'n dangos sut mae'r Awdurdod yn rheoli ei ddarpariaeth yng nghyd-destun risgiau cymunedol. |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Adroddiad Monitro: Ebrill 2025 – Medi 2025

**Ein pum egwyddor ar gyfer cadw cymunedau'n ddiogel**

POBL ATAL DIOGELU YMATEB AMGYLCHEDD

## Cynnwys

**Ein Hegwyddor Pobl ........ 2**
1 Absenoldeb Salwch ........ 2
1.1 Pob Absenoldeb Salwch ........ 2
1.2 Salwch Tymor Byr ........ 3
1.3 Salwch Hirdymor ........ 4
**Ein Hegwyddor Atal ........ 7**
2 Pob Digwyddiad ........ 7
3 Tanau ........ 8
4 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ........ 10
5 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ........ 12
6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ... 14
7 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi ........ 15
8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig ........ 18
9 Archwiliadau Diogel ac Iach ........ 22
**Ein Hegwyddor Diogelu ........ 26**
10 Galwadau Diangen ........ 26
11 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol ........ 27
12 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai ........ 28
........ 28
13 CEF Berwyn ........ 29
**Ein Hegwyddor Ymateb ........ 31**
14 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad ........ 31
15 Argaeledd 18 Pwmp a Gynlluniwyd ........ 32
16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg ........ 33
**Ein Hegwyddor Amgylchedd ........ 34**
16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau ........ 34
17 Tanau gwyllt ........ 35
18 Llifogydd ........ 36
**Geirfa ........ 37**

# Ein Hegwyddor Pobl

## 1 Absenoldeb Salwch


Nod y Gwasanaeth yw annog ei holl weithwyr i fod yn bresennol yn y gwaith i'r graddau uchaf posibl, ond gan gydnabod na fydd gweithwyr, o bryd i'w gilydd, yn gallu dod i'r gwaith oherwydd salwch.

Mae cyfanswm yr amser a gollwyd, ar gyfer GTAGC, oherwydd yr holl absenoldebau salwch wedi gostwng o 5.12% yn ystod chwarter un i 4.60% yn ystod chwarter dau. Mae hyn yn parhau i fod yn is, o ran dyddiau a gollwyd ac achosion, na'r un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol.

Roedd 951 o unigolion yn cael eu cyflogi gan GTAGC ar 30/09/2025, sy'n gynnydd o 26 o bobl o'r un cyfnod yn 2024/25; fodd bynnag, mae cyfanswm yr amser a gollwyd oherwydd yr holl absenoldebau salwch yn is na'r flwyddyn flaenorol, sy'n dangos gwelliant parhaus mewn lefelau absenoldeb salwch.

Sylwer, drwy gydol yr adroddiad, na fydd nifer yr achosion yn y flwyddyn hyd yma (YTD) yn gyfanswm y chwarteri gan y bydd absenoldebau rhai unigolion yn ymestyn ar draws chwarteri. Gall fod amrywiadau hefyd yn y niferoedd a adroddir o chwarter i chwarter o ganlyniad i newidiadau mewn data gweithwyr.

### 1.1 Pob Absenoldeb Salwch




Mae nifer y dyddiau a gollwyd, a'r achosion, oherwydd yr holl absenoldebau yn chwarter dau 2025/26 wedi gostwng ychydig o'i gymharu â'r chwarter blaenorol. Mae cyfanswm nifer y dyddiau a gollwyd yn ystod chwarter dau y flwyddyn bresennol ychydig yn is na'r dyddiau a gollwyd yn yr un cyfnod yn y flwyddyn flaenorol. Bu cynnydd yn nifer y rhai a gyflogir.

2


Ar y cyfan, o fewn GTAGC, roedd yr holl absenoldebau oherwydd materion cyhyrysgerbydol – gan gynnwys anhwylderau'r coesau, y breichiau, y cefn a'r asgwrn cefn, y gwddf, yr asennau, a chluniau – yn cyfrif am 30.4% o'r holl absenoldebau yn ystod chwarter dau, sydd ychydig yn is na'r 33.0% a gofnodwyd ar gyfer y flwyddyn lawn 2024/25, ond yn debyg i'r 29.0% a adroddwyd yn Adroddiad Absenoldeb y Gwasanaethau Tân Cenedlaethol ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2025. Roedd cyfanswm yr holl absenoldebau iechyd meddwl yn cyfrif am 29.5% o'r holl absenoldebau yn ystod chwarter dau, sy'n gynnydd o'i gymharu â'r 19.0% a gofnodwyd ar gyfer blwyddyn lawn 2024/25.

Mae **tymor byr** yn golygu cyfnodau unigol o salwch o 27 diwrnod calendr neu lai. Mae **hirdymor** yn golygu cyfnodau unigol o 28 diwrnod calendr neu fwy.

## 1.2 Salwch Tymor Byr

Ar gyfartaledd, dros flwyddyn lawn 2024/25 mae absenoldebau tymor byr yn 1.12% o'r holl amser a gollwyd.

Roedd Salwch Tymor Byr yn ystod ail chwarter y flwyddyn gyfredol yn cyfateb i 1.01% o'r amser a gollwyd, sydd ar gyfradd debyg (1.02%) i'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn ystod chwarter dau y flwyddyn flaenorol.




(*Amser cyflawn - yn cynnwys yr holl staff gweithredol, megis swyddogion mewn gorsafoedd, swyddogion gwledig a swyddogion dyletswydd hyblyg)

(Mae Tîm Arweinyddol y Gwasanaeth wedi ei rannu fel bod aelodau gweithredol y Tîm Arweinyddol yn cael eu cynnwys o fewn y ffigurau amser cyflawn, a bod Penaethiaid Adrannau wedi'u cynnwys o fewn ffigurau'r Adrannau Corfforaethol.)

Mae nifer yr achosion a'r dyddiau a gollwyd oherwydd salwch tymor byr gan weithwyr ar y systemau dyletswydd Amser Cyflawn a Rheoli wedi gostwng yn chwarter dau o'u cymharu â chwarter un. Mae gweithwyr ar alwad yn cyfrif am 50.6% o lu'r Gwasanaeth, gyda 59.7% o absenoldebau tymor byr yn rhai gan weithwyr ar y system ddyletswydd ar alwad, gyda'r absenoldebau hyn yn para 7.92 diwrnod calendr y gweithiwr ar gyfartaledd.

Mae nifer yr achosion a'r dyddiau a gollwyd gan staff corfforaethol hefyd wedi cynyddu yn ystod chwarter dau, gan gyfrif am 16.1% o absenoldebau tymor byr yn chwarter dau o'u cymharu â 12.7% yn chwarter un. Ar gyfartaledd, roedd hyd absenoldeb staff corfforaethol yn 8.35 diwrnod i bob gweithiwr yn ystod chwarter dau, a'r rheswm mwyaf cyffredin a roddwyd oedd absenoldeb cyhyrysgerbydol.

**Y 3 Phrif Reswm am Absenoldeb Salwch Tymor Byr (yn ôl yr achosion)**

| | Rheswm am Absenoldeb | Achosion | % Amser a gollwyd |
|---|---|---|---|
| 1 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff | 15 | 22.6% |
| 2 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Uchaf y Corff | 11 | 13.2% |
| 3 | Cyhyrysgerbydol - Anhwylderau'r cefn a'r asgwrn cefn | 9 | 10.3% |

*Mae '% Amser a gollwyd' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion*


Mae'r tri phrif reswm dros absenoldebau tymor byr yn seiliedig ar nifer yr achosion yn ystod chwarter dau 2025/26 wedi aros yr un fath, gyda'r tri rheswm pennaf dros absenoldebau yn gysylltiedig â materion cyhyrysgerbydol. Annwyd/ffliw oedd y rheswm mwyaf cyffredin dros absenoldebau tymor byr trwy gydol y flwyddyn 2024/25, ac er bod hyn wedi gostwng yn ystod y chwarter cyntaf, roedd y rheswm hwn yn dal i gyfrif am 8.4% o'r amser a gollwyd oherwydd absenoldebau tymor byr yn ystod chwarter dau y flwyddyn gyfredol.

Roedd yr amser a gollwyd oherwydd pob absenoldeb cyhyrysgerbydol yn cyfrif am 46.8% o'r holl salwch tymor byr yn ystod chwarter dau. Digwyddodd 63.0% o'r holl absenoldebau salwch tymor byr oherwydd materion cyhyrysgerbydol ymysg gweithwyr ar y system ddyletswydd ar alwad, ac roedd 17.2% yn absenoldeb staff corfforaethol. Er bod cynnydd amlwg wedi bod mewn absenoldebau tymor byr am resymau cyhyrysgerbydol yn ystod chwarter dau, nodwyd hefyd bod gweithwyr yn dal i gael triniaethau ffisiotherapi gan y Gwasanaeth; yr ysgwyddau, y gwddf a'r cefn oedd yn cael eu trin amlaf. Gall gweithwyr gael ffisiotherapi cyn absenoldeb gyda'r gobaith y bydd hynny'n atal absenoldeb yn gyfan gwbl, neu ei atal rhag dod yn absenoldeb hirdymor, diolch i ymyrraeth gynnar.

### 1.3 Salwch Hirdymor

Ar gyfartaledd dros flwyddyn lawn 2024/25, mae absenoldebau hirdymor yn 4.23% o'r amser a gollwyd.

Salwch hirdymor oedd 3.60% o'r amser a gollwyd ar draws pob math o ddyletswydd yn chwarter dau, o'i gymharu â 3.99% yn chwarter un. Roedd nifer yr achosion a'r dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldebau hirdymor yn ystod chwarter dau wedi gostwng o'i gymharu â chwarter un, ac eithrio achosion mewn swyddi corfforaethol sydd wedi parhau i gynyddu ers chwarter un.




**Y 3 Phrif Reswm am Absenoldeb Salwch Hirdymor (yn ôl yr achosion)**

| | **Rheswm am Absenoldeb** | **Achosion** | **% Amser a Gollwyd** |
|---|---|---|---|
| 1 | Iechyd Meddwl - Straen | 8 | 15.6% |
| 2 | Cyhyrysgerbydol - Aelodau Isaf y Corff | 7 | 7.6% |
| 3 | Methu Archwiliad Meddygol/Prawf Ffitrwydd | 7 | 9.6% |

*Mae '% Amser a gollwyd' yn seiliedig ar y dyddiau a gollwyd yn hytrach na niferoedd yr achosion*

Mae'r tri phrif reswm dros absenoldebau salwch hirdymor wedi parhau'n debyg yn chwarter dau 2025/26, heblaw bod y ddau reswm uchaf wedi cyfnewid lle.

Mae absenoldebau iechyd meddwl yn cael eu cofnodi ar wahân er mwyn nodi'r gwahanol resymau am les meddyliol gwael - straen, gorbryder, rhesymau eraill (sy'n cynnwys ffobia, profedigaeth, trawma/Anhwylder Straen Wedi Trawma [PTSD]) ac iselder yw'r rhesymau iechyd meddwl mwyaf cyffredin a gofnodwyd o fewn y Gwasanaeth.

Mae absenoldebau hirdymor oherwydd iechyd meddwl wedi cynyddu yn ystod yr ail chwarter, gyda 15.6% o'r holl absenoldebau hirdymor oherwydd rhesymau iechyd meddwl sy'n gysylltiedig â straen, a 30.0% ohonynt yn rhesymau sy'n gysylltiedig â gwaith.

Ar hyn o bryd, rydym yn cynnal adolygiad o'r cymorth pellach a roddir i weithwyr sydd ag iechyd meddwl gwael, gyda'r bwriad o'i weithredu dros y chwarter nesaf. Mae hyn yn cynnwys: mwy o gyswllt gyda'r tîm Iechyd, Ffitrwydd a Lles yn ystod yr absenoldeb i gynnig cymorth a chyngor lles holistaidd; mwy o adnoddau cyfeirio sy'n ymwneud â meysydd pryder penodol a lles ariannol ar fewnrwyd y Gwasanaeth; ail-frandio'r cefnogwyr cydweithwyr a phencampwyr y golau glas i fod yn hyrwyddwyr Lles a rhoi hyfforddiant gloywi iddyn nhw; ail-hyrwyddo'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr, gyda llenyddiaeth farchnata newydd; mwy o ddewisiadau ar gyfer cwnsela arbenigol uniongyrchol i'w cynnig gan Iechyd Galwedigaethol; mwy o wybodaeth ac adnoddau i'w hychwanegu at y wefan i deuluoedd gweithwyr am rolau rheng flaen, arwyddion/symptomau pan fo rhywun yn cael trafferth a chyfeirio pobl at gymorth.

Mae hyn yn ychwanegol at y cymorth sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd, sy'n cynnwys mynediad at iechyd galwedigaethol, rhaglen cymorth gweithwyr a thriniaeth ffisiotherapi. Mae gweithwyr hefyd yn cael eu cyfeirio at asiantaethau allanol, megis Elusen y Diffoddwyr Tân, Parabl, a gwasanaethau penodol eraill.

Cyhyrysgerbydol – Mae absenoldeb oherwydd problemau gyda'r coesau yn parhau i fod yn un o'r tri phrif reswm dros absenoldebau hirdymor, o ran nifer yr achosion. Er hyn, mae nifer y dyddiau a gollwyd ychydig yn is na'r absenoldebau hirdymor o ganlyniad i fethu archwiliad meddygol/prawf ffitrwydd. Mae absenoldebau oherwydd y rheswm hwn yn cynnwys gweithwyr sy'n aros am ymyriad llawfeddygol neu'n gwella ar ôl llawdriniaeth ond, oherwydd natur gorfforol rolau gweithredol, rhaid i weithwyr fod wedi gwella'n llwyr cyn dychwelyd i'r gwaith er mwyn peidio gwaethygu'r anaf neu gael anaf arall.

O'r gweithwyr hynny a oedd yn absennol yn ystod chwarter dau oherwydd unrhyw reswm cyhyrysgerbydol, ar gyfartaledd fe wnaeth eu habsenoldebau fesul gweithiwr bara 117 diwrnod calendr yr un (gallai'r absenoldeb fod wedi bod ar draws mwy nag un cyfnod adrodd). Ystyrir gweithwyr ar gyfer dyletswyddau wedi'u haddasu a dychwelyd i'r gwaith yn raddol lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn eu cynorthwyo i ddychwelyd yn gynharach i'r gwaith ac fel llwybr i ddychwelyd i ddyletswyddau llawn, sydd hefyd yn cefnogi lles meddyliol oherwydd ymgysylltu â threfniadau arferol.

# Ein Hegwyddor Atal


## 2 Pob Digwyddiad

**Pob Digwyddiad** – Aethpwyd i **3,614** o ddigwyddiadau yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol, sy'n gynnydd o 15.7%. Mae hyn hefyd 10.9% yn uwch na'r cyfartaledd 3 blynedd o 3,260.

**Tanau – 1,313**, cynnydd o 55.4%, a 24.7% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,053.

**Galwadau Diangen – 1,649**, cynnydd o 1.4%, a 7.5% yn fwy na'r cyfartaledd tair blynedd o 1,534.


**Galwadau Gwasanaeth Arbennig – 652**, dim newid o gymharu â'r cyfnod blaenorol, ond 3.0% yn llai na'r cyfartaledd dros dair blynedd o 672.





7

**3** **Tanau**

Aethpwyd i **1,313** o danau: cynnydd o 55.4% o 845.




| | Damweiniol (2025/26) | Bwriadol (2025/26) | Cyfanswm (2025/26) | Cyfanswm (2024/25) | +/- Blwyddyn i Flwyddyn |
|---|---|---|---|---|---|
| **Prif** | 403 | 98 | **501** | **419** | **19.6%** |
| **Eilaidd** | 520 | 271 | **791** | **397** | **99.2%** |
| **Simdde** | 21 | 0 | **21** | **29** | **-27.6%** |




8

**Camau gweithredu hyd yn hyn:**

**Atal Tanau Gwyllt ac Ymgysylltu â'r Gymuned**
Hyrwyddwyd negeseuon atal tanau gwyllt drwy gydol y flwyddyn, i gyd-fynd ag ymgyrch Doeth i Danau Gwyllt Cymru Gyfan. Mae hyn yn cynnwys:

- Cyfweliadau ar y cyfryngau a'r cyfryngau cymdeithasol i dargedu tanau bwriadol, diogelwch cefn gwlad, a chyfrifoldebau tirfeddianwyr.

- Ymgysylltu â'r cyfryngau am ddigwyddiadau penodol er mwyn atgyfnerthu negeseuon atal.

- Negeseuon tymhorol, addas i'r tywydd a phroffiliau risg lleol.

**Mentrau Lleol a Gweithio mewn Partneriaeth**
Bu staff atal a chydweithwyr yn cydweithio â phartneriaid lleol i hyrwyddo diogelwch barbeciw ym Mynyddoedd Clwyd, lle ceir tanau gwyllt yn aml oherwydd y defnydd o offer barbeciw tafladwy. Roedd y fenter yn cynnwys:

- Patrolau ar y cyd â Cheidwaid Clwyd, gan dargedu ardaloedd megis Rhaeadr y Bedol a Thop Nant Cwm Mawr (*Esclusham Mountain*).

- Ymgysylltu â'r cyhoedd i wella ymwybyddiaeth o ddiogelwch tân a'u haddysgu am y cyfyngiadau mewn ardaloedd treftadaeth a thirweddau gwarchodedig.

Roedd hon yn fenter lwyddiannus, yn dangos ymgysylltiad cryf â'r cyhoedd a pha mor werthfawr fydd cydweithio â sefydliadau partner yn y dyfodol.

**Gwaith ymgysylltu â rheilffyrdd trenau bach**
Rydym wedi gweld cynnydd mewn tanau gwyllt ger rheilffyrdd cul trenau bach neu ar y cloddiau bob ochr iddyn nhw yng Ngogledd Cymru (Rheilffordd Ffestiniog ac Ucheldir Cymru a Rheilffordd Llangollen). Credir mai gwreichion o'r trenau stêm sy'n gyfrifol am lawer o'r tanau gwyllt hyn. Mae swyddogion ardal y Gorllewin wedi cael sawl cyfarfod gyda chydweithwyr Rheilffordd Ffestiniog er mwyn deall rhagor i atal mwy o danau yn y dyfodol.

Mae'r cwmni wedi gosod dyfeisiau atal gwreichion ar eu trenau stêm erbyn hyn ac wedi mabwysiadu 'cerbyd trên tân' (*bowser* dŵr, pwmp a phibellau) sy'n cael eu defnyddio i wlychu'r cloddiau cyn i'r trên fynd heibio yn ystod tywydd poeth ac i fod yn ymateb cyntaf pe bai tân yn cael ei gynnau.

Mae trafodaethau wedi dechrau gyda Rheilffordd Llangollen, a chyfarfodydd pellach i'w trefnu.

**Camau Gweithredu Pellach**

Trefnu cyfarfod rhanddeiliaid ag asiantaethau partner (CNC, Undeb Ffermwyr Cymru ac Awdurdodau Lleol) yn ystod Ch3 2025/26 ynghylch y cynnydd diweddar mewn tanau gwyllt. Pwrpas y grŵp fydd adolygu'r data ystadegol, ystyried effaith tanau gwyllt ar y gymuned gyfan, ac ystyried opsiynau i atal tanau gwyllt pellach yn y dyfodol.


**Nodyn ychwanegol**
Mae'n bwysig nodi bod nifer o danau gwyllt yn cael eu priodoli i losgi bwriadol a llosgi gan ffermwyr, gyda'r tân yn mynd y tu hwnt i'w rheolaeth. Arferai'r gwaith ymgysylltu ynghylch digwyddiadau sy'n gysylltiedig â llosgi bwriadol a'r gwaith gyda ffermwyr gael ei gynnal gan y Tîm Lleihau Tanau Bwriadol (ART). Fodd bynnag, cafodd y Tîm hwn ei ddiddymu ar ddechrau 2025 ar ôl i'r cyllid grant gan Lywodraeth Cymru ddod i ben. Mae'r gwaith ar atal tanau bwriadol bellach wedi'i ychwanegu at lwyth gwaith y Tîm Atal presennol, sy'n heriol braidd.

Fel y cyfryw, mae'r Pennaeth Atal yn ystyried a ellir aildrefnu'r ffrydiau gwaith gyda'r nod o greu achos busnes i ehangu'r adran ac edrych ar ffyrdd o ariannu 'Swyddog Ymgysylltu Tir' ar y cyd gyda rhanddeiliaid eraill, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, Awdurdodau Lleol ac Undeb Amaethwyr Cymru. Bydd hyn yn cael ei drafod yn ystod ein cyfarfod cychwynnol â'r grŵp rhanddeiliaid.

**4 Tanau Damweiniol mewn Cartrefi**

Aethpwyd i **150** o danau damweiniol mewn cartrefi, cynnydd o 8.7% o 138.

Er bod hyn yn gynnydd o'i gymharu â'r flwyddyn ariannol flaenorol, mae'n bwysig nodi bod hyn yn dal i fod 2.6% yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 154, ac mae hefyd yn sylweddol is na nifer y tanau damweiniol mewn anheddau yr aethpwyd iddynt yn ystod y blynyddoedd ariannol cyn 2024/25.



Amser ymateb cyfartalog y Gwasanaeth i Danau Damweiniol mewn Cartrefi yn ystod y chwarter (ac eithrio Galwadau Tân Hwyr) oedd 12 munud. Mae hyn yn seiliedig ar yr amser rhwng yr alwad a'r peiriant cyntaf yn cyrraedd.

Commented [DE1]: Translate tables.

| Awdurdod Unedol | TDC | BaB | Cyf. Amser Ymateb |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 16 | ↑ 3 | 00:17 |
| Conwy | 28 | ↑ 2 | 00:11 |
| Sir Ddinbych | 25 | ↑ 7 | 00:10 |
| Sir y Fflint | 32 | ↓ -7 | 00:12 |
| Gogledd Gwynedd | 20 | ↓ -5 | 00:13 |
| De Gwynedd | 3 | ↓ -5 | 00:21 |
| | 25 | ↓ -4 | 00:10 |
| Cyfanswm | 149 | -9 | 00:12 |

| Sir | TDC | BaB | Cyf. Amser Ymateb |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 16 | ↑ 3 | 00:17 |
| Conwy | 28 | ↑ 2 | 00:11 |
| Sir Ddinbych | 25 | ↑ 7 | 00:10 |
| Sir y Fflint | 32 | ↓ -7 | 00:12 |
| Gwynedd | 23 | ↓ -10 | 00:14 |
| Wrecsam | 25 | ↓ -4 | 00:10 |
| Cyfanswm | 149 | -9 | 00:12 |

## 5 Prif Achosion Tanau Damweiniol mewn Cartrefi


Roedd nifer o brif achosion tanau damweiniol mewn cartrefi yn ystod y chwarter. Y mwyaf cyffredin oedd 'Eitemau hylosg yn rhy agos at ffynhonnell gwres (neu dân)' gyda chynnydd o 82.6% o 23 i **42**.

Dyma rai o’r prif achosion eraill lle bu cynnydd:

- ‘Cyflenwad tanwydd diffygiol – trydan’ gyda chynnydd o 25.0% o 12 i **15**.
- 'Trin yn ddiofal – oherwydd gwaredu diofal' gyda chynnydd o 75.0% o 8 i **14**.
- 'Gorboethi, achos anhysbys' gyda chynnydd o 83.3% o chwech i **11**.

Er gwaethaf hyn, gwelwyd gostyngiad mewn ambell brif achos yn ystod y chwarter hwn. Dyma rai ohonynt:

- 'Coginio – arall' gyda gostyngiad o 19.2% o 26 i **21**.
- 'Defnydd esgeulus o offer neu beiriant (ffynhonnell gwres)' gyda gostyngiad o 14.3% o 14 i **12**.




12

**Camau gweithredu hyd yma:**

Mae'r Tîm Atal a'r Grŵp Llywio Ymgyrch wedi bod yn rhagweithiol wrth ddelio â phrif achosion tanau damweiniol mewn cartrefi. Mae sawl neges cyfryngau cymdeithasol, Fire Kills a'r fideos ynghylch peryglon gadael bwyd i goginio heb ei oruchwylio wedi'u rhannu ar draws pob platfform.

Mae gan y Tîm Atal gannoedd o ofalwyr a gweithwyr cymorth aml-asiantaethol wedi cofrestru i gael cyngor a llenyddiaeth atal wedi'i dargedu yn syth i'w cyfeiriadau e-bost trwy 'Gov Delivery'. Mae hyn wedi galluogi'r Tîm Atal i rannu gwybodaeth bwysig am ddiogelwch yn y gegin/coginio ac i rannu ein gwybodaeth atgyfeirio er mwyn creu atgyfeiriadau risg uchel.

Mae criwiau tân yn parhau i ddefnyddio data Caerwysg wrth gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, a hynny er mwyn targedu'r rhai dros 65 oed sy'n fwy tebygol o gael tân cegin.

**Camau Gweithredu Pellach:**

Diwrnod Rhyngwladol Pobl Hŷn – bu'r tîm atal, asiantaethau partner a staff cefnogol amrywiol o bob rhan o'r Gwasanaeth yn cynnal Archwiliadau Diogel ac Iach, gan dargedu'r rhai mwyaf agored i niwed a thynnu sylw at bwysigrwydd peidio â gadael bwyd i goginio heb ei oruchwylio a chadw eitemau llosgadwy yn bell o ffynonellau gwres a chyfarpar coginio.

Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Atal yn gweithio ar ymgyrch wythnos o hyd ynghylch diogelwch yn y gegin i ddechrau ar 24 Tachwedd. Mae cynnwys digidol newydd yn cael ei greu, ynghyd â fideos newydd a negeseuon pwysig sy'n defnyddio'r criw tân ym Mae Colwyn.


Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Atal yn treialu cynnyrch diogelwch popty arloesol o'r enw 'Pippa'. Caiff yr 'uned' darganfod fechan hon ei gosod uwchben popty ac mae'n defnyddio AI i synhwyro arwyddion cynnar gwres a thân, gan rybuddio'r preswylydd o gynnydd sydyn y tymheredd. Hefyd, gall yr 'uned' rybuddio aelod o'r teulu neu ofalwr trwy ap ffôn symudol.

Mae cynlluniau ar y gweill i roi lifrai diogelwch cegin ym mhob locer offer tân yn Llandudno. Bydd hyn yn cael ei lansio gydag asiantaethau partner yn y flwyddyn newydd yn ogystal â datganiad llawn i'r wasg.

## 6 Marwolaethau ac Anafiadau yn sgil Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

Cafodd **31** o bobl anafiadau mewn **26** tân damweiniol mewn cartrefi. Yn anffodus, cofnodwyd marwolaeth **un** o ganlyniad i dân mewn cartref yn ystod y chwarter.

Mae nifer y bobl a anafwyd o ganlyniad i dân damweiniol mewn cartref wedi cynyddu 40.9%. Mae nifer y Tanau Damweiniol mewn Cartrefi lle cofnodwyd anaf hefyd wedi cynyddu 36.8%.




14


## 7 Synwyryddion Mwg – Tanau Damweiniol mewn Cartrefi

**Synwyryddion:** roedd synwyryddion mwg/gwres yn bresennol mewn **122** (81.3%) o'r tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt.

Roedd larymau'n weithredol ac wedi rhoi rhybudd mewn **85** (56.7%) o'r tanau damweiniol mewn cartrefi.

Nid oedd larymau wedi eu gosod mewn **29** o'r tanau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt.

O'r 150 o danau damweiniol mewn cartrefi yr aethpwyd atynt, roedd **129** wedi'u cyfyngu i'r ystafell lle cychwynnodd y tân, a **21** heb eu cyfyngu.



**Camau a gymerwyd i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed o ran tanau yn eu cartrefi:**

Yn Ch2, roedd gorsafoedd Amser Cyflawn a Chriwiau Dydd i fod i gynnal gweithgarwch atal gan ddefnyddio data Caerwysg (data a rannwyd gan y GIG) i dargedu aelwydydd pobl 65+ oed. Mae dotiau lliw gwahanol ar fap yn dynodi 65+, 75+ ac 80+ oed. Mae hyn yn galluogi criwiau i roi Archwiliadau Diogel ac Iach i grwpiau oedran a allai fod mewn mwy o berygl o dân.

Tynnwyd Archwiliadau Diogel ac Iach oddi ar restrau aros atgyfeiriad y gorsafoedd Amser Cyflawn a Chriwiau Dydd. Cwblhawyd yr holl atgyfeiriadau ar y rhestr aros yn Ch2 gan Weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref (risg uchel/canolig) a Gweithwyr y System Dyletswydd Amser Cyflawn (risg isel).

Mae'r weithdrefn hon bellach yn cael ei hadolygu oherwydd y cynnydd mewn atgyfeiriadau ar ein rhestr aros.

Mae gweithgareddau yn parhau i gael eu cynnal mewn mannau problemus ar ôl digwyddiadau sydd wedi arwain at wahanol lefelau o ymateb ar ôl digwyddiad.

Mae'r Tîm Atal yn parhau i gynnal cyfarfodydd bob tair wythnos a monitro a yw'r Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u cynnal ac a oes angen rhagor o ymgysylltu ac ymyrraeth bellach.

Mae'r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn parhau i weithio gyda'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i fynd ati yn rhagweithiol i hyrwyddo diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr ar draws pob platfform cyfryngau.

Y Tîm Atal i fynd i'r afael â'r argymhellion a nodwyd yn adroddiad diweddar Archwilio Cymru: 'Diffodd Tanau'r Dyfodol'. Y Tîm Atal i adolygu'r holl lefelau risg cyfredol ac i ddyfeisio dull 'Cymru Gyfan' gyda'n cydweithwyr yn GTACGC a GTADC, gan sicrhau ein bod yn targedu'r rhai sy'n wynebu'r perygl mwyaf, gan ddefnyddio data sy'n seiliedig ar ddeallusrwydd.

**Ymgysylltu Addysgol – Ch2:**

**Ffenics**

Cyrsiau a gyflwynwyd = 4
Cyfranogwyr = 33
Nifer a gwblhaodd y cwrs = 88%
Gwelliant Ymddygiad = 78%
Adborth cadarnhaol (gan asiantaethau cyfeirio) = 100%
Cymhwyster Agored Llawn wedi'i gael = 70%

**Gwobr Ymddiriedolaeth y Brenin**

Mae holl bolisïau a gweithdrefnau Gwobr Ymddiriedolaeth y Brenin bellach yn eu lle. Mae'r rhain wedi'u cyflwyno i Ymddiriedolaeth y Brenin er mwyn i GTAGC ddod yn ganolfan achrededig. Mae Atal yn adolygu'r gweithgareddau sy'n cael eu gwneud ar hyn o bryd yn erbyn y meini prawf a osodwyd a'r oriau cyswllt er mwyn cyflawni'r Wobr, ac mae Ffenics yn rhoi cwrs wythnos ar brawf. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar sail Cymru gyfan i alluogi Ffenics i gyflwyno Fframwaith Ymyriadau Cynnar Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.

**Ymweliadau Addysgol ag Ysgolion yn Ch2**

Ysgolion Cynradd yr Ymwelwyd â Nhw = 4
Disgyblion = 225

Criw Craidd = 2
Disgyblion = 270
Cylch Meithrin = 1
Plant = 20
Cynulliad Tanau Bwriadol = 2
Disgyblion = 110


Rhaid nodi mai gweithredu ar 50% mae'r Tîm Addysg ar hyn o bryd oherwydd absenoldeb mamolaeth.

Mae cyfnod gwyliau'r haf bob amser yn effeithio ar nifer y gweithgareddau Atal a gynhelir, a hynny oherwydd bod staff adrannol Atal sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael eu hannog i gymryd gwyliau blynyddol yn ystod y cyfnod hwn, er mwyn i argaeledd staffio gyd-fynd â chyfnodau gweithio ysgolion ac asiantaethau cyfeirio. Mae ymgysylltiadau ac ymyriadau yn cael eu cynnal pan fo cyfle.

## 8 Galwadau Gwasanaeth Arbennig

Aethpwyd i gyfanswm o **652** o alwadau gwasanaeth arbennig (gan gynnwys Gwrthdrawiadau ar y Ffordd). Mae hyn yr un nifer â'r flwyddyn ariannol flaenorol.

Er bod nifer y digwyddiadau 'Heblaw Gwrthdrawiadau ar y Ffordd' wedi gostwng 4.9%, gyda **505** o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt, bu cynnydd o 21.5% mewn presenoldeb mewn Gwrthdrawiadau ar y Ffordd, gyda **147** o ddigwyddiadau yr aethpwyd atynt o'u cymharu â 121.




Dyma rai o'r prif gategorïau Galwadau Gwasanaeth Arbennig (ac eithrio Gwrthdrawiadau ar y Ffordd):

- **243** o ddigwyddiadau 'Cynorthwyo asiantaethau eraill' – cynnydd o 5.7% o 230.
- **55** digwyddiad 'Achub/rhyddhau personau arall' – cynnydd o 3.8% o 53.
- **47** digwyddiad 'Sicrhau mynediad/allanfa' – cynnydd o 51.6% o 31.
- **38** digwyddiad 'Rhyddhau o Lifft' – cynnydd o 26.7% o 30.

Er gwaethaf hyn, gwelwyd **gostyngiad** yn nifer y digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn rhai o'r prif gategorïau, e.e.:

- **21** digwyddiad 'Dim gweithredu (nid galwad ddiangen)' – gostyngiad o 30.0% o 30.

**Camau gweithredu hyd yn hyn:**

**Diogelwch ar y Ffordd**

**Stori Olivia**
O fewn Ch2, mae Atal wedi cyflwyno 9 sesiwn stori Olivia, gan ymgysylltu â 37 o bobl ifanc rhwng 16–25 oed. Mae hyn yn cynnwys gwaith parhaus ar safleoedd Coleg Cambria a chyfleoedd addysg bellach a phartneriaeth eraill.
Nodir bod gwyliau'r haf wedi effeithio ar nifer y sesiynau.

**BikerDown**
Cynhaliwyd 3 sesiwn, gyda 44 yn bresennol dros y ddwy sesiwn. Mae'r sesiynau hyn yn parhau i gael eu cynnal gan aelodau staff yr ochr weithredol sydd â diddordeb brwd mewn beiciau modur a diogelwch beiciau modur.
Tîm Op Atal (menter diogelwch ar y ffyrdd):
231 ymgysylltiad ochr y ffordd â gyrwyr
33 Trosedd Traffig wedi'u hadrodd
Ymgysylltu a chyflwyno Stori Olivia gyda phobl ifanc a atgyfeiriwyd gan y system cyfiawnder ieuenctid.

Nodir nad oedd Swyddog Heddlu gyda'r tîm bob dydd, a dim ond pan fydd Swyddog Heddlu ar gael y mae eu gwaith ar ochr y ffordd wedi bod yn bosibl.

| | |
|---|---|
| Sioe Môn: | 413 ymgysylltiad ynghylch y 5 Angheuol. |
| Wythnos y Glas: | 220 ymgysylltiad ynghylch y 5 Angheuol. |
| Ffenics: | 45 ymgysylltiad ynghylch y 5 Angheuol. |

**Gwaith Diogelwch ar y Ffyrdd arall yr Adran Atal**

- Gweithio ar y cyd â Heddlu Gogledd Cymru ar lansio Operation Apex. Y marciau ffyrdd PRIME newydd ar ddwy ffordd yng Ngogledd Cymru sy'n cynorthwyo beicwyr modur i ddilyn y llinell orau trwy gorneli, gan eu diogelu.
- Datblygu adnoddau ar gyfer ymgysylltu â gyrwyr hŷn. I'w rhannu mewn Archwiliadau Diogel ac Iach
- Parhau i gynllunio cyflwyniad a gwaith ffilmio stori Olivia ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd. Bydd y ffilm yn cael ei defnyddio yn yr Wythnos Diogelwch ar y Ffyrdd.

**Gweithgaredd Diogelwch Dŵr**

**Wythnos Atal Boddi**
Canolbwyntio ar flwyddyn 6 mewn ysgolion cynradd. Aethpwyd i dair ysgol yn ystod yr wythnos. Pwyslais ar beidio â mynd i mewn i'r dŵr i helpu/achub rhywun. Cyflwyniad theori yn yr ystafell ddosbarth ac yna mewnbwn ymarferol ar yr iard gyda rhaffau taflu a pholion ymestyn. *Call Tell Throw* a *Float 2 Live* oedd y negeseuon.

**Ymgyrch #bewateraware**
Digwyddiad a gynhaliwyd ar stryd fawr Bangor gyda'r Uned Achub Dŵr a'r Cwch Pŵer.

**Yr Eisteddfod Genedlaethol**
Yn ystod wyth diwrnod yr ŵyl ddiwylliannol yn Wrecsam. Neilltuwyd pum diwrnod i ddiogelwch dŵr. Defnyddiwyd cafn arddangos diogelwch dŵr GTAGC fel offeryn rhyngweithio a gweledol. Defnyddiwyd taflenni cwis peryglon / dod o hyd i beryglon dŵr, a rhoddwyd bag nofio arnofia i fyw fel gwobr i'r rhai a gwblhaodd y cwis.
Cwblhawyd dros 1,200 o daflenni cwis dros yr wyth diwrnod.

**Diwrnod Atal Boddi'r Byd**
Ymunodd staff GTAGC â phartneriaid i gynnal sesiynau gwella ymwybyddiaeth yn Llyn Tegid, y Bala ac yn Llyn Padarn, Llanberis. Roedd y digwyddiadau yn hyrwyddo ymgyrch 'Find Your Float' y Fforwm Diogelwch Dŵr Cenedlaethol, lle bu staff yn gweithio gydag amryw o sefydliadau i wella ymwybyddiaeth am beryglon posibl dŵr agored.

Bu Uned Achub Dŵr y Gwasanaeth yn bresennol yn y ddau leoliad, gan gynnal arddangosiadau ymarferol a gweithgareddau diogelwch dŵr, a chafodd sesiynau Nofio'n Ddiogel eu cynnal gan y partneriaid Byw'n Iach Gwynedd yn Llyn Tegid a Phlas Menai yn Llyn Padarn. Roedd y partneriaid a'r cefnogwyr eraill a oedd yn bresennol yn y digwyddiadau yn cynnwys Debbie Ann Turnbull MBE gyda River and Sea Sense, Water Education, yr RNLI, Gwylwyr y Glannau, Timau Achub ar y Mynydd, a Reach and Rescue.

**Cynllun Peilot Diogelwch Nofio**
Bydd Staff Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru yn rhan hanfodol o gyflwyniad Cynllun Peilot Menter Diogelwch Dŵr newydd wedi'i anelu at blant 9–11 oed. Ein gweledigaeth yw cynnal sesiynau diddorol mewn canolfannau hamdden, gan gyfuno dysgu yn yr ystafell ddosbarth â gweithgareddau ymarferol yn y pwll.

Ar ôl cael eu hyfforddi, bydd ein staff yn cael eu gwahodd i gyflwyno’r pecyn addysgol tair awr hwn mewn gwahanol leoliadau ledled yr ardal wasanaeth. Bydd hyfforddiant llawn a chefnogaeth barhaus yn cael eu darparu i'n staff gan hyfforddwyr Nofio Cymru i sicrhau eu bod yn teimlo'n hyderus ac yn barod i gyflawni'r rhaglen.

**Peilot Cydweithrediad Diogelwch Dŵr â Nofio Cymru**
Cynhaliwyd dau ddiwrnod hyfforddi cychwynnol ym Mhwll Nofio Parc Eirias ym Mae Colwyn, ac mae 18 aelod o dîm GTAGC bellach wedi'u hyfforddi'n llawn.

Roedd adborth ein staff yn hynod gadarnhaol, a chafodd cynnwys a chyflwyniad y cwrs dderbyniad da iawn. Roedd y rhan fwyaf o'r hyfforddiant yn yr ystafell ddosbarth, ond aeth y staff at ymyl y pwll am yr awr olaf i addysgu dau ddosbarth plant o dan oruchwyliaeth yr athro nofio.

Roedd Cyfathrebu Corfforaethol yn bresennol hefyd er mwyn tynnu lluniau o’r gweithgareddau dosbarth a’r wers yn y pwll. Hefyd, recordiwyd cyfweliadau wrth ochr y pwll i drafod y fenter a'i nodau.

Mae'r tîm Nofio Diogel yn cael gwiriadau manylach y gwasanaeth datgelu a gwahardd gan fod hyn yn cael ei ystyried yn weithgaredd rheoledig gyda phlant a phobl ifanc.

Mae’r Grŵp Llywio Ymgyrchoedd yn parhau i weithio gyda’r tîm Cyfathrebu Corfforaethol i fynd ati yn rhagweithiol i hyrwyddo diogelwch tân, diogelwch ar y ffyrdd a diogelwch dŵr ar draws pob platfform cyfryngau.


## 9 Archwiliadau Diogel ac Iach

Cynhaliwyd cyfanswm o **9,828** o Archwiliadau Diogel ac Iach, o'r rheiny:

- Roedd **2,454** (25.0%) yn archwiliadau blaenoriaeth Uchel, gyda **1,305** (53.2% o'r archwiliadau blaenoriaeth uchel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **2,015** (20.5%) yn archwiliadau blaenoriaeth Ganolig, gyda **188** (9.3% o'r archwiliadau blaenoriaeth ganolig a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.
- Roedd **5,359** (54.5%) yn archwiliadau blaenoriaeth Isel, gyda **208** (3.9% o'r archwiliadau blaenoriaeth isel a gwblhawyd) yn dod gan asiantaeth bartner.

Cafodd cyfanswm o **1,701** o Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd eu cyfeirio at y Gwasanaeth gan Asiantaeth – mae hyn yn 17.3% o'r Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd.

Er bod gostyngiad o **2.6%** wedi bod yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach a gwblhawyd o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd, bu cynnydd o **0.7%** yn nifer yr Archwiliadau Diogel ac Iach blaenoriaeth uchel a gwblhawyd.





Cynhaliwyd cyfanswm o 896 (9.1%) o Archwiliadau Diogel ac Iach yn Gymraeg yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn ariannol.


22

Cwblhawyd cyfanswm o 90% o'r holl Archwiliadau Diogel ac Iach o fewn y dyddiad cwblhau targed.

Pob Archwiliad yn ôl Dyddiau Dros Gyrhaeddiad Targed




High Priority Checks by Days Over Target Completion




23

**Camau gweithredu hyd yma:**

Gweithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref i geisio cynnal 6000 Archwiliad Diogel ac Iach y flwyddyn. Pob Gweithiwr Cymorth Diogelwch yn y Cartref i gynnal 545 Archwiliad y flwyddyn, sef 136.25 y chwarter.

Criwiau i gwblhau chwe Archwiliad Diogel ac Iach y dydd, sef 24 i bob cyfnod pedwar diwrnod. Gellir cyrraedd y targed hwn o fewn y ddwy awr a neilltuwyd ar gyfer gweithgareddau atal, fel y manylir yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad Gorsaf.

Yn Ch2, roedd gorsafoedd Amser Cyflawn a Chriwiau Dydd i fod i gynnal gweithgarwch atal gan ddefnyddio data Caerwysg (data a rannwyd gan y GIG) i dargedu aelwydydd pobl 65+ oed. Mae dotiau lliw gwahanol ar fap yn dynodi 65+, 75+ ac 80+ oed. Mae hyn yn galluogi criwiau i roi Archwiliadau Diogel ac Iach i grwpiau oedran a allai fod mewn mwy o berygl o dân.

Tynnwyd Archwiliadau Diogel ac Iach oddi ar y rhestr aros atgyfeirio. Cwblhawyd yr holl atgyfeiriadau ar y rhestr aros yn Ch2 gan Weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref (risg uchel/canolig) a System Dyletswydd Amser Cyflawn (risg isel).

Mae'r weithdrefn hon yn cael ei hadolygu oherwydd y cynnydd mewn atgyfeiriadau ar ein rhestr aros.

Mae gweithgareddau yn parhau i gael eu cynnal mewn mannau problemus ar ôl digwyddiadau sydd wedi arwain at wahanol lefelau o ymateb ar ôl digwyddiad.

Mae'r Tîm Atal yn parhau i gynnal cyfarfodydd bob tair wythnos a monitro a yw'r Archwiliadau Diogel ac Iach wedi'u cynnal ac a oes angen rhagor o ymgysylltu ac ymyrraeth bellach.

**Rhestrau aros Ch2**

| | Uchel | Canolig | Isel | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Conwy** | 214 | 64 | 118 | 396 |
| **Sir Ddinbych** | 114 | 27 | 74 | 215 |
| **Sir y Fflint** | 205 | 42 | 108 | 355 |
| **Wrecsam** | 187 | 43 | 149 | 379 |
| **Ynys Môn** | 48 | 9 | 32 | 89 |
| **Gogledd Gwynedd** | 68 | 9 | 43 | 120 |
| **De Gwynedd** | 36 | 6 | 24 | 66 |
| **Cyfanswm** | **872** | **200** | **548** | **1620** |

Mae'r rhestr aros yn parhau i fod yn risg sylweddol i'r sefydliad.

Yn Ch2, mae 1,620 o atgyfeiriadau ar y rhestr aros, sy'n fwy nag yr oedd yn Ch1.

Mae'r rhestr aros yn cael ei rheoli gan Weithwyr Cymorth Diogelwch yn y Cartref, Gweithwyr y System Dyletswydd Amser Cyflawn, a staff ar ddyletswyddau wedi'u haddasu.

Yn Ch2, cynigiwyd taliad ychwanegol i staff Atal a staff Ar Alwad i gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach yn ystod misoedd Awst/Medi.

Anogwyd Staff y System Dyletswydd Amser Cyflawn i gynyddu niferoedd yr Archwiliad Diogel ac Iach y maen nhw'n eu cynnal dros y ffôn, a gofynnwyd i rai gwylfeydd Criw Dydd / Amser Cyflawn gynnal Archwiliadau Diogel ac Iach risg canolig ac uchel o'r rhestr aros.

Ar hyn o bryd, mae'r Tîm Atal yn adolygu gwaith Archwiliadau Diogel ac Iach y gorsafoedd, ac yn ddiweddar maen nhw wedi ymgysylltu â chriwiau gyda'r bwriad o newid y ffordd y maen nhw'n cwblhau'r archwiliadau. Y syniad yw y dylai criwiau weithio oddi ar restr aros gyfredol yr atgyfeiriadau risg canolig ac uchel o fewn ardal eu gorsaf, yn hytrach na chynhyrchu Archwiliadau Diogel ac Iach newydd trwy ddata Caerwysg. Fodd bynnag, Data Caerwysg fydd system arferol y criwiau ar gyfer adnabod pobl dros oedran penodol yn dal i fod, a byddant yn gallu defnyddio hyn ar y cyd â'r rhai ar y rhestr aros atgyfeirio. Bydd yr adolygiad yn dod i ben o fewn Ch3, gyda strategaeth atal newydd yn seiliedig ar orsafoedd ar waith erbyn Ionawr 2026.


25


# Ein Hegwyddor Diogelu

## 10 Galwadau Diangen

Aethpwyd at gyfanswm o **1,649** o alwadau diangen, sy'n gynnydd o 1.4%. Mae'r cyfanswm hwn yn cynnwys galwadau diangen yr aethpwyd iddynt ar draws pob math o eiddo.

Mae cynnydd wedi'i gofnodi yn nifer y digwyddiadau Galwadau Diangen Diffuant yr aethpwyd iddynt, gyda chynnydd o 27.2% wedi'i gofnodi o 556 i **707**. Er gwaethaf hyn, gellir gweld gostyngiad mewn galwadau diangen Maleisus, a ostyngodd 25.7% o 35 i **26**, a hefyd mewn larymau tân oherwydd digwyddiadau gydag Offer, a ostyngodd 11.5% o 1,035 i **916**.





26

## 11 Galwadau System Larwm Awtomatig Masnachol


Cafwyd **825** o alwadau System Larwm Awtomatig Masnachol yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd pob un ac eithrio **dau** yn ddigwyddiadau nad aethpwyd iddynt.




27

## 12 Galwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai

Cafwyd **246** o alwadau System Larwm Awtomatig Ysbytai. Er nad dyma'r nifer uchaf o alwadau a dderbyniwyd yn ystod unrhyw gyfnod hanner cyntaf yn y pum mlynedd ariannol diwethaf, yn yr hanner hwn y gwelwyd y nifer uchaf o ddigwyddiadau nad aethpwyd iddynt.





### Camau a gymerwyd hyd yma – Ysbytai:


Mae nifer y digwyddiadau yr aethom iddyn nhw yn parhau'n isel, a hynny oherwydd cydweithrediad parhaus rhwng GTAGC a BIPBC, gyda GTAGC bellach wedi dechrau cyfundrefn archwilio gylchol ar draws yr ystâd er mwyn cadarnhau trefniadau gweithio ac i sicrhau mai'r amgylcheddau sydd â'r risg mwyaf sy'n cael eu harchwilio. Bu cydweithredu parhaus ac mae'r cyfarfod bob dwy flynedd i fod i gael ei gynnal yn chwarter tri.

28

## 13 CEF Berwyn

Cafodd **55** o brif danau eu cynnau'n fwriadol yn CEF Berwyn, ac aethpwyd i **36** o'r rhain – mae hyn 77.4% yn fwy na'r llynedd.








**Camau a gymerwyd hyd yma – CEF Berwyn**

Mae nifer y digwyddiadau yr aethom iddyn nhw wedi gostwng yn sydyn ers cyflwyno cynnyrch fêpio newydd, a hynny oherwydd bod y rhan fwyaf o'r digwyddiadau blaenorol yn cael eu hachosi trwy ymyrryd â dyfeisiau o'r fath.

Archwiliwyd y digwyddiadau hyn i ganfod unrhyw batrymau, ac roedd patrymau i'w gweld ar ddyddiau penodol o'r wythnos. Roedd y digwyddiadau'n cyd-fynd â'r dyddiau pan fo carcharorion yn cael eu cyflog, gyda dyledion carcharorion fel arfer yn cael eu talu yn syth ar ôl hynny. Mae carcharorion yn cynnau'r tanau hyn er mwyn osgoi'r dyledion (fel arfer ar ddydd Iau neu ddydd Gwener). Mae cydweithio parhaus o ran nodi dulliau newydd o gynnau tanau yn parhau, gan y bydd y carcharorion yn canfod ffyrdd newydd o gynnau tanau er mwyn cael eu symud o floc i floc i osgoi dyled. Bydd hyn yn broses barhaus wrth i nifer y digwyddiadau godi a gostwng.



# Ein Hegwyddor Ymateb

**14 Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd Ar Alwad**
Mae'r tabl isod yn dangos faint o bympiau oedd ar gael ar gyfartaledd ar gyfer pob Gorsaf System Dyletswydd Ar Alwad rhwng 06:00 a 18:00. Mae'r argaeledd wedi'i rannu fesul mis, ac yn dangos argaeledd yn ystod dyddiau'r wythnos (Llun-Gwener) ac ar benwythnosau/gwyliau banc.

Mae'r tabl yn cynrychioli'r holl wylfeydd system dyletswydd ar alwad nad ydynt wedi'u lleoli mewn gorsafoedd amser cyflawn neu griw dydd.

| **Argaeledd Gorsafoedd System Dyletswydd ar Alwad ar Gyfartaledd 06:00-18:00** | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Diwrnod/Mis | Ebrill | Mai | Mehefin | **Ch1** | Gorffennaf | Awst | Medi | **Ch2** |
| Llun-Gwener | 6 | 6 | 5 | **6** | 6 | 4 | 6 | **5** |
| Penwythnos (gan gynnwys Gwyliau Banc) | 14 | 14 | 12 | **13** | 11 | 12 | 12 | **12** |
| **Cyfartaledd Cyffredinol** | **9** | **9** | **7** | **8** | **7** | **7** | **7** | **7** |
| **2024/25** | **7** | **7** | **6** | **7** | **6** | **7** | **6** | **6** |

Sylwch fod y nifer sydd ar gael wedi'i dalgrynnu i lawr i'r rhif cyfan agosaf.

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu nifer dechreuwyr ac ymadawyr y System Dyletswydd Ar Alwad yn ystod chwarter dau, o'i gymharu â'r un chwarter y llynedd. Mae llawer o'r rhai a adawodd yr RDS y chwarter hwn wedi mudo yn ddiffoddwyr tân dyletswydd amser llawn.

| Chwarter | Dechreuwyr | Ymadawyr | Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter | Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig) |
|---|---|---|---|---|
| **Gorff 2024 – Medi 2024** | 30 | 7 | 487 | 436 |
| **Gorff 2025 – Medi 2025** | 12 | 29 | 485 | 418 |
| **+/-** | **-18** | **+22** | **-2** | **-18** |


**Dechreuwyr** – nifer dechreuwyr y System Dyletswydd ar Alwad o bob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd.

**Ymadawyr -** nifer ymadawyr y System Dyletswydd ar Alwad o bob chwarter. Nid yw hyn yn cynnwys contractau eilaidd, na'r rhai sy'n symud i'r System Dyletswydd Amser Cyflawn.

**Nifer y Swyddi ar Ddiwedd y Chwarter** – nifer y swyddi System Dyletswydd Ar Alwad sydd wedi'u llenwi, gan gynnwys y rhai sydd â mwy nag un rôl.

**Nifer y Gweithwyr (un rôl yn unig)** – nifer yr unigolion sydd ar y System Dyletswydd Ar Alwad yn unig h.y., y rhai nad oes ganddynt ddwy rôl yn y Gwasanaeth.

## 15 Argaeledd 18 Pwmp a Gynlluniwyd




| Nifer y Dyddiau Pan Gyflawnwyd yr Argaeledd oedd wedi'i Gynllunio | |
|---|---|
| **100% o Bympiau Ar Gael - Wedi'i Fodloni** | |
| **Llun-Gwener** | 64 |
| **Penwythnos/Gŵyl y Banc** | 27 |
| **100% o'r Pympiau Ar Gael - Nis Bodlonwyd** | |
| **Llun-Gwener** | 1 |

**D.S.** Er na lwyddwyd i gael argaeledd 18 pwmp ar un diwrnod o'r wythnos ym mis Awst, roedd digon ar gyfer pob grŵp o fewn y Cynllun Grŵp 16 ar y diwrnod hwnnw.


## 16 Technolegau sy'n Dod i'r Amlwg

Wrth i dechnoleg ddatblygu ac i'n dibyniaeth ni fel cymdeithas arni gynyddu, mae wedi dod yn amlwg bod risgiau newydd a chymhleth yn wynebu ein Gwasanaeth Tân. Gall technolegau sy'n dod i'r amlwg fod ar amrywiaeth o ffurfiau, gan gynnwys pethau megis:

- Cerbydau Trydan
- Ffermydd Gwynt
- Dyfeisiau sy'n cynnwys Batris Ïon Lithiwm

Gan nad yw llawer o'r technolegau hyn wedi'u cynnwys ar hyn o bryd o fewn System Cofnodi Digwyddiadau (IRS) y Swyddfa Gartref, cynhelir chwiliadau geiriau allweddol ar logiau digwyddiadau er mwyn dod o hyd i'r digwyddiadau perthnasol. Yn dilyn trosglwyddiad o fewn y llywodraeth, lle symudodd y cyfrifoldeb am Dân o'r Swyddfa Gartref i'r Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol (MHCLG), mae gwaith yn cael ei wneud ar hyn o bryd gan MHCLG a Gwasanaethau Tân ac Achub ledled y DU i integreiddio'r technolegau hyn â'r system cofnodi digwyddiadau newydd a elwir yn FaRDaP (Llwyfan Data Tân ac Achub). Bydd angen parhau i ddefnyddio chwiliadau geiriau allweddol i gasglu gwybodaeth am ddigwyddiadau a gofnodwyd cyn i'r llwyfan newydd gael ei gyflwyno.

Mae'r tabl isod yn crynhoi digwyddiadau yr aethpwyd atynt yn ymwneud â thechnolegau sy'n dod i'r amlwg. Mae'r data hwn yn cwmpasu'r cyfnod o fis Gorffennaf 2025 tan fis Medi 2025, ac mae'n cynnwys pob categori digwyddiadau.





D.S. Mewn rhai achosion, mae'r achos wedi'i ragdybio yn hytrach na'i gadarnhau oherwydd natur y digwyddiad.

# Ein Hegwyddor Amgylchedd


**16 Tanau glaswelltir, coetir a chnydau**

Cofnodwyd **431** o danau glaswelltir, coetir a chnydau, cynnydd o 214.6% o 137. Mae hyn 73.1% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 249.



## 17 Tanau gwyllt


Aethpwyd at **33** o danau gwyllt. Mae hyn yn gynnydd o 725.0% ac mae 94.1% yn uwch na'r cyfartaledd tair blynedd o 17. O ganlyniad, cynyddodd yr amser a dreuliwyd yn monitro digwyddiadau tanau gwyllt i dros **870 awr**, o'i gymharu â thros 229 awr yn ystod yr un cyfnod y flwyddyn flaenorol.




35

## 18 Llifogydd

Aethpwyd i **12** digwyddiad llifogydd, gostyngiad o 57.1% o 28, ac 18 digwyddiad yn llai na'r cyfartaledd tair blynedd o 30.




36

## Geirfa

| | |
|---|---|
| Tanau | Mae pob tân yn perthyn i un o dri chategori – prif danau, tanau eilaidd neu danau simdde. |
| Prif Danau | Mae'r rhain yn danau nad ydynt yn danau simdde, ac sydd mewn unrhyw fath o adeilad (ac eithrio adfeilion), cerbydau, carafannau a threlars, storfeydd awyr agored, peiriannau a pheirianwaith, eiddo amaethyddol a choedwigaeth, a strwythurau awyr agored eraill, megis pontydd, blychau post, twneli, ac ati.<br><br>Mae tanau mewn unrhyw leoliad yn cael eu categoreiddio'n brif danau os oedden nhw'n cynnwys anafiadau, achub neu ddianc, ac felly hefyd danau mewn unrhyw leoliad yr aeth pump neu fwy o beiriannau tân i ymdrin â nhw. |
| Tanau Eilaidd | Tanau eilaidd yw tanau nad ydynt yn danau simdde nac yn brif danau.<br><br>Nid yw tanau eilaidd yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi mynd i ymdrin â nhw.<br><br>Tanau eilaidd yw'r rhai a fyddai fel arfer yn digwydd mewn lleoliadau megis tir agored, mewn coed unigol, ffensys, polion telegraff, sbwriel a chynwysyddion sbwriel (ond nid banciau papur, a fyddai'n cael eu hystyried – yn yr un ffordd ag eiddo amaethyddol a choedwigaeth – i fod yn brif danau), dodrefn tu allan, goleuadau traffig, ac ati. |
| Tanau Simdde | Tanau mewn adeiladau a ddefnyddir gan bobl yw'r rhain, a'r tân wedi'i gyfyngu i strwythur y simdde, hyd yn oed os yw difrod gwres neu fwg yn ymestyn y tu hwnt i'r simdde ei hun.<br><br>Nid yw tanau simdde yn cynnwys anafiadau, achub na dianc, a bydd pedwar neu lai o beiriannau tân wedi ymdrin â nhw. |
| Digwyddiadau Gwasanaeth Arbennig | Digwyddiadau heb dân yw'r rhain lle mae angen presenoldeb peiriant tân neu swyddog ac maent yn cynnwys:<br>a) Argyfyngau lleol, e.e. llifogydd, digwyddiadau ar y ffordd, achub pobl, 'gwneud yn ddiogel' ac ati;<br>b) Trychinebau mawr;<br>c) Digwyddiadau domestig, e.e. dŵr yn gollwng, pobl wedi'u cloi i mewn neu allan ac ati;<br>d) Trefniadau blaenorol i fynd i ddigwyddiadau, a all gynnwys rhoi cyngor a chynnal archwiliadau. |
| Galwadau Diangen (canllawiau cyffredinol) | Pan fo'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn credu bod digwyddiad ac yn mynd i leoliad, ond ar ôl cyrraedd yn darganfod nad oes digwyddiad o'r fath yn bodoli, nac wedi bodoli.<br><br>Sylwer: os yw'r peiriant tân yn cael ei 'droi rownd' gan yr Ystafell Reoli cyn cyrraedd y digwyddiad, nid yw'r alwad yn cael ei hystyried fel un y mae'r gwasanaeth wedi mynd iddi ac nid oes angen rhoi gwybod amdani. |

| | |
|---|---|
| Galwadau Diangen – Maleisus | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda'r bwriad o gael y Gwasanaeth Tân ac Achub i fynd i ddigwyddiad nad yw'n bodoli, gan gynnwys bwriadau maleisus bwriadol a'r rhai yr amheuir eu bod yn faleisus. |
| Galwadau Diangen – Diffuant | Mae'r rhain yn alwadau a wneir gyda phob ewyllys da, gan gredu y byddai'r Gwasanaeth Tân ac Achub yn mynd i dân neu ddigwyddiad gwasanaeth arbennig go iawn. |
| Galwadau Diangen – Systemau Larwm Awtomatig | Mae'r rhain yn alwadau sydd wedi'u hysgogi gan larwm tân ac offer diffodd tân. Maent yn cynnwys larymau sydd wedi'u seinio'n ddamweiniol neu pan fo larwm yn seinio ac unigolyn yn galw'r GTA yn ôl yr arfer fel rhan o drefniant sefydlog, h.y. heb unrhyw 'farnu', er enghraifft galwad gan ganolfan galwadau diogelwch neu berson enwebedig mewn sefydliad. |
| Adeilad – Anheddau | Eiddo sy'n fan preswylio, h.y. cartref lle mae pobl yn byw, ac eithrio gwestai, hosteli a strwythurau preswylio nad ydynt yn barhaol. |
| Adeilad – Dibreswyl | Eiddo megis ysbytai, swyddfeydd, siopau, ffatrïoedd, warysau, bwytai, sinemâu, adeiladau cyhoeddus, adeiladau crefyddol, adeiladau amaethyddol, gorsafoedd rheilffordd, siediau, carchardai. |
| Adeilad – Preswyl Arall | Eiddo fel gwestai, hosteli a sefydliadau preswyl, busnesau gwely a brecwast, cartrefi nyrsio/gofal, neuaddau preswyl myfyrwyr. |
| Cerbyd (Ffordd a Thrafnidiaeth Arall) | Cerbyd ffordd, cerbyd rheilffordd, cerbyd awyr, cwch. |
| Awyr agored | Caeau, glaswelltir, coetir, cynwysyddion sbwriel, blychau post. |
| Tanau gwyllt | Tân glaswelltir, coetir a chnydau lle'r aeth 4 cerbyd neu fwy i'r digwyddiad, neu lle bu'r Gwasanaeth yn bresennol am 6 awr neu fwy, neu lle amcangyfrifwyd bod ardal difrod y tân yn fwy na 10,000 metr sgwâr. |
| Salwch Tymor Byr (STS) | Absenoldebau 27 diwrnod calendr a llai. |
| Salwch Hirdymor (LTS) | Absenoldebau 28 diwrnod calendr a mwy. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 06**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Tachwedd 2025.** |
| Swyddog Arweiniol | **Anthony Jones – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Mike Plant – Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid** |
| Pwnc | **Rheoli Risg Strategol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau mewn perthynas â'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg ac i roi trosolwg o Gofrestr Risg Strategol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Ers yr adolygiad o reolaethau mewnol gan archwilwyr mewnol, Mersey Internal Audit Agency (MIAA), mae sawl newid i'r ffordd y caiff risgiau eu cofnodi a'u rheoli wedi cael eu cyflwyno er mwyn cryfhau'r broses rheoli risg.

3 Cafodd y matrics Parodrwydd i Dderbyn Risg a gymeradwywyd ei adolygu yn y Pwyllgor Risg Strategol diweddar ar 23 Hydref 2025, nid yw'r parodrwydd i dderbyn risg wedi newid.

4 Mae'r adroddiad yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gynnwys Cofrestr Risg Strategol yr Awdurdod.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i)** **nodi'r Gofrestr Risg Strategol; ac yn**
**ii)** **adolygu a chymeradwyo'r parodrwydd i dderbyn risg ym mharagraffau 14–21 isod**

## CEFNDIR

6 Mae Cofrestr Risg Strategol yr Awdurdod yn nodi risgiau hysbys a allai atal yr Awdurdod rhag cyflawni'r canlyniadau a gynlluniwyd ganddo a/neu gyflawni ei swyddogaethau craidd. Rhoddir sgoriau risg i gofnodion ar y gofrestr ac maent yn cael eu hailasesu'n rheolaidd gan swyddogion i adlewyrchu'r cyflwr presennol a'r effaith a ragwelir yn sgil camau lliniaru arfaethedig.

7 O dan y polisi hwn, mae'r Panel Gweithredol yn cael crynodeb o'r risgiau strategol o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Rhwng cyfarfodydd, gall Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr Awdurdod weld manylion llawn y gofrestr gyda swyddogion.

**GWYBODAETH**

8 Mae Penaethiaid Adran yn gyfrifol am nodi a rheoli'r risgiau y maen nhw'n berchen arnynt; fodd bynnag, mae Pwyllgor Risg Strategol wedi'i ychwanegu at y Strwythur Sicrwydd Llywodraethiant ac mae wedi cyfarfod ddwywaith ers yr adroddiad diwethaf. Mae'r pwyllgor hwn yn gyfrifol, ymhlith pethau eraill, am adolygu'r risgiau hynny sy'n cael eu nodi fel 'Risg Uchel' neu 'Uchel Iawn'.

9 Mae'r Pwyllgor Risg Strategol yn cael ei gefnogi yn ei waith gan bob Pwyllgor arall yn y Strwythur Sicrwydd Llywodraethiant, sydd bellach â risg fel eitem agenda sefydlog ar gyfer trafod risgiau newydd a phresennol yng nghyd-destun eu ffrydiau gwaith penodol.

10 Mae modiwlau E-Ddysgu Hyfforddiant Risg Lefel 1 a 2 bellach wedi'u cwblhau a'u llofnodi gan gadeirydd y Pwyllgor Risg Strategol. Mae'r gwaith hwn gan yr adran Hyfforddiant a Datblygu yn cwblhau'r ddarpariaeth hyfforddiant ar lefelau 1–4 a oedd angen cael eu gweithredu yn ôl yr adroddiad MIAA. Bydd y modiwlau hyn yn cael eu neilltuo i gyfrifon dysgu digidol y personél perthnasol yn fuan, ac maent i'w cwblhau ar gylch 3 blynedd

**Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru**

Adolygwyd ddiwethaf: 23 Hydref 2025 yn y Pwyllgor Risg Strategol

11 Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod ei gynaliadwyedd hirdymor yn dibynnu ar optimeiddio risg mewn perthynas â chyflawni ei amcanion strategol, a bod y berthynas â chymunedau, staff, contractwyr, y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill yn allweddol i lwyddiant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

12 Nid dim ond un lefel o barodrwydd i dderbyn risg sydd gan yr Awdurdod; yn hytrach, mae ganddo amrywiaeth o lefelau o barodrwydd i dderbyn risg ar draws ystod ei weithgareddau. Rydym yn cydnabod, wrth fynd ar drywydd ein hamcanion llesiant a gwella, ei bod yn bosibl y byddwn yn dewis derbyn gwahanol raddau o risg mewn gwahanol feysydd.

13 Mae ein parodrwydd i dderbyn risg wedi'i ddiffinio ar ôl ystyried risgiau, materion a chanlyniadau sefydliadol. Byddwn bob amser yn anelu at weithredu gweithgareddau sefydliadol ar y lefelau a ddiffinnir isod. Lle rhagwelir y bydd gweithgareddau'n rhagori ar y lefelau diffiniedig, rhaid tynnu sylw at hyn trwy fecanweithiau llywodraethiant priodol.

14 **Risgiau ariannol:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **gofalus** ar gyfer risgiau ariannol gan gyfeirio at gostau rhedeg craidd, gan chwilio am opsiynau cyflenwi diogel gyda dim ond ychydig o risg weddilliol sydd ddim ond yn arwain at rywfaint o gyfleoedd ychwanegol. Bydd yr Awdurdod yn cael sicrwydd parhaus trwy'r datganiad llywodraethiant blynyddol bod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn unol â chanllawiau'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) a SOLACE.

15 **Risgiau Ymateb/Gweithrediadau:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **gofalus** ar gyfer risgiau i'n gallu i ymateb i argyfyngau, gan geisio diogelu ein gallu i leihau risg i'r cyhoedd a sicrhau ar yr un pryd bod ein diffoddwyr tân mor ddiogel â phosibl.

16 **Risgiau cydymffurfio Cyfreithiol/Rheoleiddiol:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **minimol** ar gyfer cydymffurfiaeth, gan geisio ffafrio cadw at gyfrifoldebau, ac opsiynau cyflawni diogel gyda dim ond ychydig o risg weddilliol. Bydd gan yr Awdurdod sicrwydd blynyddol bod cyfundrefnau cydymffurfio ar waith, trwy'r Datganiad Llywodraethiant Blynyddol.

17 **Risgiau i enw da:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **agored** ar gyfer risgiau i enw da, gan ffafrio opsiynau cyflenwi mwy diogel, gan fod yn ofalus a goddef rhywfaint o risg weddilliol a dewis yr opsiwn sydd fwyaf tebygol o arwain at gyflenwi'n llwyddiannus, a thrwy hynny wella ein henw da am ddarparu gwasanaethau cost-effeithiol o ansawdd uchel i'r cyhoedd.

18 **Risgiau pobl:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **gofalus** mewn perthynas â risgiau Pobl. Rydym yn credu'n gryf ym mhwysigrwydd ymgysylltiad cadarnhaol â staff a chynnal diwylliant sy'n cael ei arwain gan werthoedd i gefnogi ein holl staff. Mae recriwtio a chadw diffoddwyr tân ar alwad yn her benodol yn rhai o'n cymunedau mwy gwledig.

19 **Risgiau gwybodaeth:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **gofalus** tuag at risg rheoli a storio gwybodaeth bersonol, i adlewyrchu sensitifrwydd a phwysigrwydd yr wybodaeth a gedwir ar ein systemau i gefnogi ein gweithgareddau atal a diogelu yn ogystal â gwybodaeth staff sy'n cael ei phrosesu at ddibenion cyflogaeth.

20 **Risgiau Technoleg/Seiber:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **minimol** ar gyfer bygythiadau i'n hasedau sy'n deillio o ymosodiadau maleisus allanol. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg hon, rydym yn gweithredu prosesau rheoli mewnol cryf ac yn defnyddio atebion technoleg cadarn.

21 **Risgiau Asedau/Ystadau:** Rydym wedi mabwysiadu safbwynt **gofalus** ar gyfer asedau ac ystadau, gan geisio sicrhau gwerth am arian ond gan ffafrio opsiynau cyflenwi profedig sydd â risg weddilliol isel. Mae hyn yn golygu ein bod yn defnyddio atebion ar gyfer prynu, rhentu, gwaredu, adeiladu, ac adnewyddu sy'n sicrhau ein bod yn diogelu'r trethdalwr rhag cymaint o risg â phosibl, gan roi gwerth da am arian a bodloni gofynion sefydliadol yn llawn ar yr un pryd.

21 **Cofrestr Risg Strategol**

| **Thema** | **Camau Lliniaru** |
|---|---|
| **Ymateb/Gweithrediadau**<br>(Parodrwydd i Dderbyn Risg – Gofalus)<br><br>Oherwydd ansicrwydd o ran argaeledd cyllid ar gyfer buddsoddiad cyfalaf, mae risg na allai cyfleusterau hyfforddi fod yn addas i'r diben mwyach os na fuddsoddir mewn cynnal a chadw a gwella cyfleusterau yn y dyfodol. | Bydd buddsoddi mewn cyfleusterau hyfforddi yn Nolgellau a'r Rhyl, ynghyd â chyfleuster Hyfforddi Ymddygiad Tân yn Airbus Brychdyn, yn caniatáu i hyfforddiant Offer Anadlu barhau yn y tymor byr i ganolig. Ychydig o le sydd i ymestyn/ehangu'r safleoedd hyn i gynnwys unrhyw hyfforddiant arall sy'n seiliedig ar senarios, a hynny oherwydd eu lleoliadau a'u cyfyngiadau cynllunio.<br>Ar hyn o bryd, mae'r cyfleusterau hyfforddi yn cael eu hategu gan staff yn mynd i leoliadau allanol, fodd bynnag, mae'n anodd ragweld cost hyn y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol gyfredol. |
| **Technoleg/Seiber**<br>(Parodrwydd i Dderbyn Risg – Minimol)<br><br>Gan fod bygythiadau seiber yn esblygu trwy'r adeg, mae risg y bydd y sefydliad yn destun ymosodiad seiber | Mae technolegau amrywiol yn helpu i'n hamddiffyn rhag bygythiadau allanol, e.e. gosodiadau diogelwch mewnol ac ati. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o'r technolegau hyn yn adnabyddus ac mae seiberdroseddwyr yn addasu eu hymosodiadau i ennill y blaen ar ein rheolaethau. Mae meddalwedd ychwanegol (e.e. Bullwall) yn helpu i leihau canlyniad ymosodiadau o'r fath, ac mae protocolau yn cael eu llunio i helpu gyda lliniaru ar ôl ymosodiad |

| | |
|---|---|
| **Risgiau ariannol**<br>(Parodrwydd i dderbyn risg– Gofalus)<br><br>Mae risg na fydd y terfynau amser yn cael eu bodloni oherwydd cymhlethdod rheolau pensiwn a'r angen i fynd i'r afael â heriau cyfreithiol. Gallai hyn gael ei achosi gan natur gymhleth y rheoliadau a'r amser sydd ei angen i ddatrys materion cyfreithiol. | Aelod o Fwrdd Cynghori'r cynllun.<br>Mae ansawdd data yn gwella.<br>Mae llif arian parod y tu allan i'r gronfa bensiwn. |
| **Ymateb/Gweithrediadau**<br>(Parodrwydd i Dderbyn Risg – Gofalus)<br><br>Oherwydd materion recriwtio a chadw digon o staff, mae risg na fyddwn yn gallu sicrhau bod pympiau ar gael, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. | Timau recriwtio ac argaeledd pwrpasol ym mhob ardal. Grwpiau pwrpasol a Phwyllgor yn y Strwythur Sicrwydd yn canolbwyntio ar y risg hon. Swyddogion, staff a grwpiau cynrychioliadol yn gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol i weithredu'r cytundeb cydweithredol y cytunwyd arno yn ddiweddar i wella darpariaeth yng nghefn gwlad ac i gynyddu gwytnwch. Adnodd argaeledd dyddiol pwrpasol yn sicrhau bod cynifer o beiriannau tân â phosibl ar gael ledled Gogledd Cymru. |

Diffinnir **risg** fel cyfuniad o debygolrwydd a chanlyniadau digwyddiadau peryglus. **Tebygolrwydd**: y siawns y bydd rhywbeth yn digwydd. Gellir ei ddisgrifio ar sail tebygolrwydd, amlder neu ansicrwydd digwyddiadau.
**Canlyniad:** Canlyniad digwyddiad. Yn benodol, difrifoldeb neu raddau’r niwed a achosir gan ddigwyddiad.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Lles<br>Amcanion | Mae cynnal y gofrestr a chymryd camau i reoli risg yn cynyddu’r tebygolrwydd y caiff amcanion llesiant yr Awdurdod eu cyflawni. |
| Cyllideb | Mae cynnal y gofrestr yn helpu i flaenoriaethu penderfyniadau gwario a fyddai'n lleihau lefelau risg. |
| Cyfreithiol | Mae cynnal y gofrestr yn helpu i sicrhau bod yr Awdurdod yn cydymffurfio â deddfwriaeth sy’n diffinio ei swyddogaethau a sut mae’n gweithredu. |
| Staffio | Ni nodwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>Y Gymraeg | Ni nodwyd unrhyw oblygiadau penodol. |
| Risgiau | Bwriad gwaith lliniaru yw lleihau cymaint â phosibl ar y tebygolrwydd o risg. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 09**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Elgan Roberts, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Pennu Cyllideb 2026/27** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am yr asesiad cynllunio ariannol i osod cyllideb gytbwys ar gyfer 2026/27 a cheisio cymeradwyaeth i ddangos yr ardoll ddangosol i'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ddarparu ffigurau dangosol ar gyfer ardoll ariannol 2026/27 i'r awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr 2025, ac i gadarnhau'r ffigurau terfynol erbyn 15 Chwefror 2026. Er mwyn gwneud hyn, rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw a chyfalaf ar gyfer 2026/27 yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026. Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi craffu ar y broses o gynllunio'r gyllideb, ac mae'r asesiad cynllunio presennol o £54.375m wedi'i gadarnhau.

## ARGYMHELLION

3 Argymhellir bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, gan gynnwys y rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2026/27;**

**ii) Nodi'r asesiad cynllunio ariannol cyfredol sy'n dangos gofyniad cyllideb refeniw o £54.375m a chyllideb gyfalaf o £6.661m ar gyfer 2026/27;**

**iii) Nodi'r cynnig i ddefnyddio £0.271m o'r gronfa wrth gefn ar gyfer 2026/27; a**

**iv) chymeradwyo rhoi gwybod am yr ardoll ariannol ddrafft o £54.104m gan yr awdurdodau lleol cyfansoddol.**

## CEFNDIR

4 Bob blwyddyn, mae'n rhaid i'r Awdurdod bennu cyllideb refeniw gytbwys sydd â chymeradwyaeth yr Awdurdod llawn. Rhaid cyfleu'r ardoll ariannol ddangosol i awdurdodau lleol cyfansoddol erbyn 31 Rhagfyr bob blwyddyn, a rhaid cadarnhau'r ardoll derfynol erbyn 15 Chwefror, cyn dechrau'r flwyddyn ariannol. Er mwyn bodloni'r amserlenni hyn, bydd y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2026/27 yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod yn eu cyfarfod ar 19 Ionawr 2026.

5 Mae'r Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i sefydliadau feddu ar gynlluniau ariannol sy'n dangos sut y bydd gwariant yn cael ei ariannu dros y tymor byr a'r tymor canolig. O ganlyniad, mae cynaliadwyedd ariannol yr Awdurdod yn seiliedig ar wybodaeth a dealltwriaeth o'r ffactorau allweddol sy'n effeithio ar gostau ac ar werthuso risgiau ac ansicrwydd.

6 Yn dilyn yr ymgynghoriad ar yr Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys, mae gwaith yn mynd rhagddo i wella argaeledd yng nghefn gwlad; fodd bynnag, ni fydd arbedion yn cael eu gwireddu gan na chafodd opsiynau sy'n cynnwys arbedion sy'n rhyddhau arian parod eu cymeradwyo gan yr Awdurdod. Bydd y cynllun peilot Criwio Cnewyllyn ym Mhorthmadog a Dolgellau yn cael ei fonitro yn ystod 2026/27.


7 Mae'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor), a sefydlwyd i graffu ar y broses o osod cyllidebau, yn goruchwylio'r broses.

## GWYBODAETH

8 Sefydlwyd y Gweithgor gan yr Awdurdod ac mae pob awdurdod lleol cyfansoddol yn cael ei gynrychioli arno. Mae'r Gweithgor wedi ymgynnull ar bum achlysur i adolygu pob agwedd ar wariant Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth). Roedd y cyfarfodydd hyn yn canolbwyntio ar feysydd allweddol, gan gynnwys costau cyflogau uniongyrchol, gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau, ariannu cyfalaf, llog, a threfniadau prydlesu.

9 Gwnaed gwaith cynllunio cyllideb manwl yn unol â'r rhagdybiaethau cynllunio allweddol, y risgiau, a'r amheuon sydd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

10 Nododd y gwaith cychwynnol o gynllunio'r gyllideb mewn manylder bwysau ychwanegol anochel, ac mae'r Gweithgor bellach wedi mynd i'r afael â'r pwysau hwnnw. Mae'r asesiad drafft terfynol yn gosod gofyniad cyllidebol o £54.375m. Ar ôl defnyddio £0.271m o'r gronfa wrth gefn, £54.104m yw'r gofyniad ardoll ar gyfer 2026/27, sy'n cynrychioli cynnydd gros o 4% yn yr ardoll ar awdurdodau lleol.




11 Mae dadansoddiad drafft o'r gofyniad ardoll o £54.104m ar gyfer pob awdurdod lleol cyfansoddol i'w weld yn Atodiad 2.

12 Mae'r tabl isod yn cadarnhau gostyngiadau o £1.349m yn y gofyniad cyllidebol a nodwyd drwy waith y Gweithgor yn ystod y flwyddyn.

| £'m | 2025/26 | 2026/27 Drafft 1 | 2026/27 Drafft 2 | 2026/27 Y Gyllideb Arfaethedig | Newidiadau drwy Graffu ar y Gyllideb |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr | 36.915 | 39.152 | 38.844 | 38.732 | 0.420 |
| Costau nad ydynt yn gyflogau | 16.513 | 17.700 | 17.167 | 16.810 | 0.890 |
| Incwm | -1.039 | -1.128 | -1.211 | -1.166 | 0.038 |
| **Cyfanswm** | **52.389** | **55.724** | **54.800** | **54.375** | **1.348** |

13 Disgwylir i gostau gweithwyr gynyddu o £36.915m yn 2025/26 i £38.732m yn 2026/27, sy'n cynrychioli cynnydd o 4.9%. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys dyraniad o £0.352m i ehangu capasiti'r sefydliad, yn unol ag argymhellion Cynghorydd Tân Cymru ac i sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion deddfwriaethol. Heb gynnwys y costau ychwanegol hyn, mae'r cynnydd sylfaenol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn 4%.

14 Mae darpariaethau wedi'u cynnwys i gefnogi twf parhaus y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS), gyda rhagdybiaeth recriwtio ychwanegol o 15 swydd i sicrhau bod gallu ymateb a gwytnwch yr ochr weithredol yn cael eu cynnal.

15 Mae pwysau ariannol ychwanegol sy'n deillio o effaith recriwtio yn 2025/26, cynnydd staff o ddatblygiad i gyflog cymwys, a gwerthuso swyddi wedi'u lliniaru drwy arbedion a lleihad mewn cyfraniadau cyflogwyr i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol.

16 Mae'r broses gynllunio cyllideb yn ymgorffori prif risgiau a rhagdybiaethau, yn enwedig bod dyfarniadau cyflog yn seiliedig ar gyfradd chwyddiant o 3.8%. Bydd unrhyw setliad sy'n uwch na'r gyfradd hon yn arwain at bwysau cost ychwanegol y tu hwnt i'r cynnig cyllideb presennol. Mewn achosion o'r fath, bydd mesurau mewnol yn cael eu gweithredu i liniaru'r effaith yn y tymor byr, gan gynnwys defnyddio'r gronfa gyffredinol a chronfeydd wrth gefn penodol.

17 Rhagwelir y bydd costau nad ydynt yn gyflogau yn cynyddu o £12.012m yn 2025/26 i waelodlin ddiwygiedig o £12.309m ar gyfer 2026/27. Mae defnyddio £0.271 miliwn o gronfeydd wrth gefn ar gyfer gwariant untro yn lleihau cyfanswm effaith yr ardoll i £12.039 miliwn. Mae'r cynnydd o fewn y flwyddyn yn cynnwys ailddosbarthu gwariant cyfalaf penodol, e.e. refeniw, yn dilyn adolygiad mewnol i sicrhau cydymffurfiaeth â safonau CIPFA.

18 Tybir y bydd incwm yn codi o £1.039 miliwn yn 2025/26 i £1.166 miliwn yn 2026/27. Mae'r incwm ychwanegol hwn yn gwrthbwyso pwysau cyflog a phwysau nad yw'n gyflog o £0.082 miliwn, ac mae'n cynnwys cyllidebau ar gyfer gwerthu cerbydau (£0.100 miliwn) a'r llog a ddisgwylir ar fuddsoddiadau (£0.037 miliwn). Mae'r enillion hyn yn cael eu gwrthbwyso'n rhannol gan ostyngiad o £0.092m mewn cyllid grant hysbys a Chytundebau Lefel Gwasanaeth (CLG).

19 Cynigir dyraniad cyfalaf o £6.661m ar gyfer 2026/27; fodd bynnag, dim ond ar ôl i'r holl achosion busnes cysylltiedig gael eu datblygu'n llawn, ac wedi iddyn nhw fod yn destun craffu trylwyr, y bydd cynlluniau'n symud ymlaen. Rhagwelir y bydd costau cyllido cyfalaf yn parhau i fod yn sefydlog ar £4.501 miliwn, gan adlewyrchu gostyngiadau yn yr Isafswm Darpariaeth Refeniw (£0.027 miliwn) a chostau prydles (£0.076 miliwn). Mae'r arbedion hyn yn cael eu gwrthbwyso gan ddarpariaeth o £0.060m ar gyfer Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw (CERA) a chynnydd mewn llog sy'n daladwy, wedi'i yrru gan ailbroffilio'r llyfr benthyciadau tuag at fenthyca tymor hwy er mwyn rhoi sicrwydd a pharhad.

## GWAITH PELLACH

20 Bydd achosion busnes ar gyfer cyfalaf newydd ac ariannu nad yw'n gyflog yn destun craffu mewnol pellach i sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag amcanion strategol y sefydliad, yn lliniaru risgiau'n effeithiol, ac yn cydymffurfio ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Bydd y broses hon yn rhoi sicrwydd bod buddsoddiadau arfaethedig yn cyfrannu at gynaliadwyedd hirdymor, yn sicrhau gwerth am arian, ac yn cefnogi nodau ehangach llesiant economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol.

21 Bydd yr asesiad cynllunio ariannol drafft yn cael ei fireinio ymhellach, a bydd yn cael ei ddiweddaru yn yr asesiad terfynol sydd i'w gyflwyno i'r Awdurdod yn ei gyfarfod ar 19 Ionawr 2026.

22 Mae adroddiadau Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2026/27 yn cael eu datblygu ar hyn o bryd. Ar ôl eu hystyried a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Cyllid a Chaffael, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod er mwyn iddyn nhw graffu arnyn nhw a'u cymeradwyo yn y Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth, gyda'r gymeradwyaeth derfynol wedi'i drefnu yng nghyfarfod yr Awdurdod Tân ar 20 Ebrill 2026.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r cynigion yn cefnogi Amcanion Gwella a Llesiant yr Awdurdod drwy sicrhau cynaliadwyedd ariannol a gwytnwch gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae'r asesiad cynllunio yn cadarnhau gofyniad cyllidebol o £54.375m, gyda £0.271m o gronfeydd wrth gefn wedi'u defnyddio i leihau effaith yr ardoll. |
| Cyfreithiol | Rhaid i'r Awdurdod osod cyllideb gytbwys yn unol â gofynion statudol a chanllawiau CIPFA. |
| Staffio | Mae costau staffio yn cynrychioli dros 70% o gyfanswm y gwariant. Mae risgiau allweddol yn cynnwys ansicrwydd ynghylch dyfarniadau cyflog, heriau recriwtio ar gyfer staff dyletswydd ar alwad, a chynnal gwytnwch corfforaethol. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Bydd y materion hyn yn cael ystyriaeth o fewn y cynigion ar gyfer pennu'r gyllideb. |
| Risgiau | Mae Manylion am y prif risgiau ac ansicrwydd i'w cael yn Atodiad 1. |

**Atodiad 1**
**Crynodeb o ragdybiaethau a risgiau cynllunio**

| **Pennawd** | **Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb** | **Risgiau/Ansicrwydd** |
|---|---|---|
| Costau gweithwyr | • Cyllidebau staffio yn seiliedig ar fodelau cyflwyno gwasanaethau presennol ac ar ganlyniadau'r Adolygiad o'r Ddarpariaeth Frys (2023).<br>• Mae cyllideb y System Dyletswydd Ar Alwad (RDS) yn rhagdybio bydd nifer y bobl yn aros yn gyson, nid yw'n tybio llu llawn (tua £3m ychwanegol pe bai'n llawn). Cafodd gwaith i recriwtio mwy i'r System Dyletswydd Ar Alwad ei gapio ar 15 swydd (roedd yn 30 yn 2024/25).<br>• Rhagdybiaeth cynllunio dyfarniad cyflog: Chwyddiant o 3.8% ar gyfer pob grŵp staff. | • Nid yw'r Cyd-gyngor Cenedlaethol (NJC) wedi dod i gytundeb eto ar ddyfarniad cyflog y diffoddwyr tân ar gyfer 2026/27.<br>• Mae'r gwaith o gynllunio'r gyllideb yn tybio y bydd lefelau arferol o weithgarwch. Os bydd llif mawr o alwadau yn digwydd byddwn yn teimlo pwysau cyllidebol. Y dybiaeth rydym yn gweithio arni yw y byddai'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei defnyddio yn y lle cyntaf.<br>• Gallai heriau recriwtio ar gyfer y System Dyletswydd Ar Alwad a lefelau ymddeol uchel gynyddu costau.<br>• Efallai y bydd angen rhagor o gyllid gweinyddol i fynd i'r afael â heriau cyfreithiol ar unioni pensiwn (O'Brien/Matthews 2). |

| **Pennawd** | **Rhagdybiaethau cynllunio sy’n cael eu defnyddio wrth bennu’r gyllideb** | **Risgiau/Ansicrwydd** |
|---|---|---|
| Costau nad ydynt yn gyflogau | • Cyllidebau wedi'u llunio gan ddefnyddio dull wedi’i seilio ar sero; mae angen achos busnes ar gyfer unrhyw wariant newydd dros £10k.<br>• Mae pwysau chwyddiant, pan fo’n hysbys, yn cael eu ystyried mewn contractau a chostau'r gadwyn gyflenwi.<br>• Mae costau na ellir eu hosgoi sy'n gysylltiedig â materion iechyd a diogelwch penodol i'r diwydiant wedi'u cynnwys o fewn y gyllideb nad yw'n gyflogau. Mae'r rhain yn cynnwys costau sy'n gysylltiedig â hyfforddi diffoddwyr tân gweithredol a rheoli halogyddion.<br>• Gwariant untro (nid cyflog) o £271k wedi'i ddyrannu, i'w ariannu drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn. | • Er bod y Gwasanaeth yn parhau i adolygu costau nad ydynt yn gyflogau ac yn ymdrechu i reoli pwysau o ran costau o fewn y gyllideb arfaethedig, mae hyn yn parhau i fod yn faes risg ac ansicrwydd. Yn benodol, nodwyd bod oedi wrth ddarparu nwyddau neu wasanaethau wedi effeithio ar broffiliau amser gwariant.<br>• Er bod chwyddiant costau yn gyffredinol yn haws ei reoli nag yn ystod y blynyddoedd diwethaf, nodir bod rhai meysydd o bryder yn parhau. Mae hyn yn cynnwys cynnydd mewn costau yswiriant a thrwyddedau ar gyfer meddalwedd gan gynnwys systemau sy’n bwysig i’r busnes.<br>• Rydym wedi gwybod bod cost nwy a thrydan yn achosi pwysau ers 2022/23 o ganlyniad i’r pwysau byd-eang ar gostau. Mae'n ymddangos bod y sefyllfa wedi sefydlogi ac mae'r gyllideb ar gyfer 2026/27 yn seiliedig ar yr amcangyfrifon gorau ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae’r farchnad yn parhau i fod yn anwadal, a chaiff hyn ei reoli'n ofalus trwy gydol y flwyddyn ariannol, gyda'r contract presennol i ddod i ben yn ystod 2026/27. |

| Pennawd | Rhagdybiaethau cynllunio sy'n cael eu defnyddio wrth bennu'r gyllideb | Risgiau/Ansicrwydd |
|---|---|---|
| Ariannu Cyfalaf | • Mae'r gofynion ariannu cyfalaf ar gyfer 2026/27 yn cynnwys y tâl refeniw ar gyfer yr isafswm darpariaeth refeniw ar gyfer yr asedau presennol ac amcangyfrif o'r taliadau llog sy'n deillio o fenthyca. Effeithir ar y costau hyn yn sgil gwariant cyfalaf hanesyddol, yr angen i fenthyg ar gyfer rhaglen gyfalaf 2026/27 ac effaith y cynnydd mewn cyfraddau llog wrth ailariannu benthyciadau sy'n aeddfedu.<br>• Bydd yr asesiad cynllunio cychwynnol yn rhagdybio y bydd yr holl fenthyca yn y dyfodol ar gyfradd gyffredinol y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ar adeg pennu'r gyllideb, a amcangyfrifir ar hyn o bryd yn 4.6%. Mae'r Awdurdod yn derbyn cyngor ac arweiniad annibynnol ar y mater hwn gan Arlingclose, cwmni cynghori arbenigol.<br>• Mae'r cynllun cyfalaf yn cynnwys costau posibl sy'n gysylltiedig ag achosion busnes a gyflwynir gan bob Pennaeth Adran. Mae hyn yn cynnwys rhywfaint o ddarpariaeth ar gyfer costau cychwynnol sy'n gysylltiedig â Phrosiect y Ganolfan Hyfforddi i alluogi datblygu achos busnes manwl a model ariannu. | • Mae'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn faes risg allweddol ac mae'n gwaethygu oherwydd bod angen ailariannu nifer o fenthyciadau yn ystod blwyddyn ariannol 2026/27. Modelu ariannol a wnaed i asesu pa mor fforddiadwy yw'r holl gynlluniau yn ystod y broses o bennu'r gyllideb.<br>• Nid yw amseriad unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â chanolfan hyfforddi newydd yn hysbys ar hyn o bryd gan nad yw'r achos busnes wedi'i ystyried gan yr Awdurdod. Er na ragwelir na fydd yr achos busnes terfynol a'r opsiynau ariannu yn cael eu cyflwyno i'w cymeradwyo tan 2027 bydd darpariaeth ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio manwl yn cael ei chynnwys yn amcangyfrifon cychwynnol y gyllideb. |
| Incwm | • Mae cyllidebau incwm wedi'u hadolygu a'u pennu yn unol â blynyddoedd blaenorol, yn amodol ar gynnydd mewn chwyddiant.<br>• Mae grant Llywodraeth Cymru yn tybio y bydd gweddill cyllid grant Llywodraeth Cymru yn cael ei roi ar y lefelau presennol. | • Nid oes unrhyw risgiau penodol wedi'u nodi yn ychwanegol at yr incwm grant gan Lywodraeth Cymru, ac ni ragwelir codiadau chwyddiant ar ei gyfer.<br>• Nid yw ffrydiau incwm a ragwelir (e.e., gwerthiannau asedau) wedi'u gwarantu. |

**Atodiad 2**

**Ardoll ariannol ddrafft yn ôl awdurdod lleol**

| Awdurdod | SYG<br>Amcangyfrif Poblogaeth | 2026/27<br>Cyllideb<br>£ | 2026/27<br>Defnyddio Cronfeydd wrth Gefn<br>£ | 2026/27<br>Ardoll<br>£ | Cynnydd Ardoll<br>% |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyngor Sir Ynys Môn | 69,097 | 5,389,578 | -26,861 | 5,362,717 | 3.41% |
| Cyngor Gwynedd | 120,813 | 9,423,435 | -46,965 | 9,376,470 | 5.13% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 114,891 | 8,961,518 | -44,663 | 8,916,855 | 4.14% |
| Cyngor Sir Ddinbych | 98,202 | 7,659,773 | -38,176 | 7,621,598 | 4.82% |
| Cyngor Sir y Fflint | 155,867 | 12,157,653 | -60,593 | 12,097,061 | 3.74% |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 138,245 | 10,783,134 | -53,742 | 10,729,392 | 5.30% |
| **Cyfanswm** | **697,115** | **54,375,092** | **-271,000** | **54,104,092** | **4.47%** |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Panel Gweithredol** |
| Dyddiad | **15 Rhagfyr 2025** |
| Swyddog Arweiniol | **Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Justin Evans** |
| Swyddog Cyswllt | |
| Pwnc | **Ymgynghoriad ynghylch y Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Hysbysu Aelodau'r Panel Gweithredol am ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru (y Fframwaith), a cheisio cymeradwyaeth o'r ymateb arfaethedig gan Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Fframwaith Cenedlaethol drafft sy'n nodi blaenoriaethau strategol a disgwyliadau ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub dros y blynyddoedd i ddod. Mae'r Fframwaith yn mynd i'r afael â heriau cyfoes, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, newidiadau demograffig, datblygiadau technolegol, a newidiadau diwylliannol.

3 Mae'r Gwasanaeth yn cefnogi'r Fframwaith yn eang, ac wedi paratoi ymateb cynhwysfawr sy'n cynnwys awgrymiadau adeiladol i roi mwy o sylw i'r canlynol:

- Trawsnewid digidol a modelu risg rhagfynegol.
- Cynaliadwyedd y gweithlu a gwelliant diwylliannol.
- Integreiddio'r Gymraeg.
- Atebolrwydd amgylcheddol a'r gwirionedd am yr ochr weithredol.

4 Mae'r ymateb hefyd yn tynnu sylw at uchelgais y Gwasanaeth i ddatblygu Canolfan Hyfforddi a Datblygu newydd i baratoi ar gyfer heriau yn y dyfodol.

## ARGYMHELLIAD

5 Bod yr Aelodau yn:

**i) Nodi cyhoeddiad y Fframwaith Cenedlaethol drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru;**
**ii) Cymeradwyo ymateb arfaethedig GTAGC i'r ymgynghoriad, sydd wedi'i nodi yn Atodiad 1; ac yn**
**iii) Awdurdodi cyflwyno'r ymateb i Lywodraeth Cymru erbyn dyddiad cau yr ymgynghoriad ar 17 Rhagfyr 2025.**

## CEFNDIR

6 Mae Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i weinidogion Cymru gyhoeddi fframwaith cenedlaethol i lywio gwaith yr Awdurdodau Tân ac Achub (ATA). Bydd y fframwaith drafft cyfredol, a gyhoeddwyd ar 22 Hydref 2025, yn disodli fersiwn 2016 ac yn adlewyrchu newidiadau sylweddol yn yr amgylchedd gweithredu, gan gynnwys canlyniadau tân Tŵr Grenfell, newid yn yr hinsawdd, a datblygiadau technolegol.

## GWYBODAETH

7 Mae'r Fframwaith drafft wedi'i strwythuro o amgylch pedair pennod thematig allweddol:

- Y Cyd-destun Strategol: Sy'n cydnabod cymhlethdod cynyddol yr amgylchedd risg, gan gynnwys newid yn yr hinsawdd, tueddiadau demograffig, a bygythiadau diogelwch byd-eang.
- Pennu Adnoddau yn ôl Risg: Sy'n pwysleisio cynllunio sy'n seiliedig ar ddata a risg, a'r angen am ddarparu gwasanaethau hyblyg, sydd wedi'u teilwra i ardal leol.
- Pobl, Arweinyddiaeth a Diwylliant: Sy'n tynnu sylw at bwysigrwydd arweinyddiaeth gynhwysol, lles y gweithlu, a thrawsnewid diwylliannol.
- Materion Corfforaethol: Sy'n canolbwyntio ar lywodraethu, atebolrwydd, cydweithredu a chynaliadwyedd.

8 Mae'r Gwasanaeth yn falch o weld bod y Fframwaith yn cyd-fynd â'n Cynllun Rheoli Risg Cymunedol a'n blaenoriaethau strategol. Mae ein hymateb yn cefnogi amcanion craidd y Fframwaith ac yn cynnig gwybodaeth ychwanegol yn y meysydd canlynol:

- Pwysigrwydd rhoi cydnabyddiaeth gynnar i drawsnewid digidol a disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch tryloywder.
- Mwy o bwyslais ar fodelu rhagfynegol a chynllunio senarios.
- Yr angen am fynegiant cyffredin o ddiwylliant cadarnhaol ar draws Awdurdodau Tân ac Achub Cymru.
- Eglurder ar atebolrwydd amgylcheddol y gwasanaethau brys.
- Cryfhau integreiddiad ystyriaethau ynghylch y Gymraeg ledled y Fframwaith.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r Fframwaith yn cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac mae'n cefnogi cyfraniad GTAGC at y nodau llesiant cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â chymunedau cydnerth, Cymru iachach, a chymunedau cydlynus. |
| Cyllideb | Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol sy'n deillio o'r adroddiad hwn. Fodd bynnag, bydd gweithredu'r Fframwaith yn dylanwadu ar gynllunio adnoddau a blaenoriaethau buddsoddi yn y dyfodol. |
| Cyfreithiol | Cyhoeddwyd y Fframwaith dan Adran 21 Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004. Mae'n rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub roi sylw dyledus i'w gynnwys wrth gyflawni eu swyddogaethau statudol. |
| Staffio | Mae pwyslais y Fframwaith ar gynaliadwyedd y gweithlu, ar ddatblygu arweinyddiaeth, ac ar newid diwylliannol yn cyd-fynd â gwaith datblygu sefydliadol parhaus GTAGC. Wrth ei gyflwyno yn y dyfodol efallai y bydd angen addasiadau i hyfforddiant, recriwtio a chynllunio'r gweithlu. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/Y Gymraeg | Mae'r ymateb yn tynnu sylw at yr angen i gryfhau ymgorffori ystyriaethau ynghylch y Gymraeg ac mae'n cefnogi ymrwymiad y Fframwaith i gynhwysiant, amrywiaeth a chydraddoldeb. Mae GTAGC yn parhau i fod wedi ymrwymo i Safonau'r Gymraeg ac i hyrwyddo cynhwysiant ieithyddol. |
| Risgiau | Gallai methu â chymryd rhan yn y broses ymgynghori olygu colli cyfleoedd i lunio cyfeiriad strategol y ddarpariaeth tân ac achub yng Nghymru. Mae'r Fframwaith hefyd yn cyflwyno disgwyliadau a allai effeithio ar fodelau darparu gwasanaethau yn y dyfodol, sy'n gofyn am gynllunio rhagweithiol a lliniaru risg. |

# Atodiad 1

## Ymateb i'r Ymgynghoriad: Fframwaith Cenedlaethol Drafft ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru

### Cwestiwn 1: Ydych chi'n cytuno bod yr heriau strategol sy'n wynebu'r Gwasanaeth wedi'u nodi mewn ffordd deg a chynhwysfawr?

Ydyn. Mae GTAGC yn cytuno bod yr heriau strategol, ar y cyfan, wedi'u nodi mewn ffordd deg a chynhwysfawr. Mae'r Fframwaith yn cyfleu cymhlethdod yr amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo, gan gynnwys effeithiau newid yn yr hinsawdd, newidiadau demograffig, datblygiadau technolegol, a bygythiadau diogelwch byd-eang. Mae'r rhain yn gyson â llawer o'r ffactorau risg allweddol a nodwyd yn ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ac sydd eisoes yn dylanwadu ar sut rydym yn cynllunio ac yn darparu gwasanaethau. Mae'r gydnabyddiaeth o'r llwyddiant wrth leihau digwyddiadau sy'n gysylltiedig â thân, ochr yn ochr â'r angen i addasu i risgiau sy'n dod i'r amlwg, yn adlewyrchu ein taith a'n cyfeiriad strategol ein hunain.

### Cwestiwn 2: A oes materion eraill y dylem eu cynnwys yn y bennod hon?

Mae'r bennod wedi'i datblygu'n dda ac yn cyd-fynd â themâu ehangach y Fframwaith. Wrth adolygu'r ddogfen, rydym yn nodi bod rhai meysydd – gan gynnwys trawsnewid digidol, cynaliadwyedd y gweithlu, a disgwyliadau'r cyhoedd ynghylch tryloywder ac atebolrwydd – yn cael sylw mewn adrannau diweddarach. Mae'r rhain yn fwyfwy perthnasol i'r cyd-destun strategol a gallant elwa o gael cydnabyddiaeth yn gynharach, a hynny er mwyn adlewyrchu eu dylanwad ar gynllunio gwasanaeth hirdymor.

### Cwestiwn 3: Ydych chi'n meddwl bod y naratif a'r amcanion yn y bennod Pennu Adnoddau yn ôl Risg yn briodol ac yn bwysig?

Ydyn. Mae GTAGC yn cefnogi'r naratif a'r amcanion yn y bennod hon. Mae'r pwyslais ar ddeall ac ar ymateb i risg ar lefel leol, gyda chefnogaeth data a deallusrwydd, yn ganolog i'n Cynllunio Rheoli Risg Cymunedol. Mae'r bennod yn adlewyrchu'r angen i gynnal gwasanaethau craidd wrth addasu i risgiau tymhorol a risgiau sy'n dod i'r amlwg ac mae'n cyd-fynd â'n dull o gynllunio adnoddau, o gaffael adnoddau gwledig, ac o ymgysylltu â'r gymuned. Mae GTAGC yn treialu modelau criwio newydd ac yn gweithio i adolygu'r ddarpariaeth ar y rheng flaen er mwyn cryfhau argaeledd yng nghefn gwlad, a hynny wrth gynnal darpariaeth ymateb effeithiol mewn ardaloedd trefol.

Mae'r pwyslais a roddir ar atal ynghyd ag ymateb yn effeithiol yn cyd-fynd â'n pum egwyddor risg cymunedol (Pobl, Atal, Diogelu, Ymateb a'r Amgylchedd) a'n hamcanion lles a gwella.

Mae canolbwyntio ar gael gallu a chapasiti i gyd-fynd â risg yn gyson â'n dyletswyddau statudol a'n blaenoriaethau sefydliadol.

Mae bod yn barod ar gyfer risgiau'r dyfodol a gallu ymateb i dirwedd newidiol a datblygol yn hanfodol bwysig i ni,   boed hynny'n risgiau corfforol y mae ein criwiau yn eu hwynebu pan fyddan nhw'n ymateb i argyfyngau, neu'r risgiau yr ydym yn eu hwynebu fel sefydliad – o ran ein hymddygiad, ein cynhwysiant a'n diwylliant sefydliadol.

Bydd ein huchelgais i ddatblygu canolfan hyfforddi a datblygu newydd yng Ngogledd Cymru yn ein galluogi i baratoi ar gyfer heriau'r presennol a heriau'r dyfodol.

**Cwestiwn 4: A oes unrhyw faterion neu amcanion eraill y dylem eu cynnwys yn y bennod hon?**

Yng nghyd-destun ein hamgylchedd gweithredu, yn awr ac yn y dyfodol, efallai bod cyfle pellach i adlewyrchu'r hyn y gall modelu rhagfynegol a chynllunio senarios ei gynnig wrth ragweld a pharatoi ar gyfer risgiau sy'n datblygu. Hefyd, er bod cyfeiriadau at ddarparu gwasanaethau gwledig a chynaliadwyedd y System Dyletswydd ar Alwad mewn mannau eraill yn y Fframwaith, byddai eu cynnwys yn y bennod hon yn rhoi cyd-destun pwysig ar gyfer deall y gwirionedd o ran yr ochr weithredol a'r heriau o ran adnoddau sy'n wynebu gwasanaethau tân ac achub Cymru.

**Cwestiwn 5: Ydych chi'n meddwl bod y naratif a'r amcanion yn y bennod Pobl, Arweinyddiaeth a Diwylliant yn briodol ac yn bwysig?**

Ydyn. Mae GTAGC yn cytuno bod y naratif a'r amcanion yn y bennod yn rhoi sylw priodol i bwysigrwydd pobl, arweinyddiaeth a diwylliant wrth gyflenwi gwasanaethau tân ac achub effeithiol. Mae'r sylw a roddir i iechyd, diogelwch, lles, ac arweinyddiaeth gynhwysol yn cyd-fynd â'n gwerthoedd sefydliadol a'n gwaith parhaus i gefnogi gwytnwch y gweithlu a gwelliant diwylliannol. Rydym yn falch o weld bod yr heriau sy'n wynebu'r sector a'r angen am fuddsoddiad parhaus mewn datblygu pobl ac arweinyddiaeth yn cael eu cydnabod.

DRAFT

**Cwestiwn 6: A oes unrhyw faterion neu amcanion eraill y dylem eu cynnwys yn y bennod hon?**

Er bod y Fframwaith yn cyfeirio at ddiwylliant o 'broffesiynoldeb, diffuantrwydd, cynhwysiant ac arloesi', efallai y byddai'n fuddiol edrych yn fanylach ar sut y gellid datblygu dealltwriaeth o ddiwylliant ar draws Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru. Gallai mynegiad ar y cyd o beth yw diwylliant cadarnhaol – un y mae'r tri Gwasanaeth a budd-ddeiliaid wedi cytuno arno – yn cefnogi cysondeb, atebolrwydd a gwelliant hirdymor. Byddai hyn hefyd yn cyd-fynd ag egwyddorion partneriaeth gymdeithasol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Gallai dealltwriaeth gyffredin hefyd gefnogi datblygiad ymddygiadau arweinyddiaeth cyson, atgyfnerthu dysgu ledled y sector, a gwella hyder y cyhoedd yng ngwerthoedd ac ymddygiad gwasanaethau tân ac achub ledled Cymru.  Byddai'r gwaith hwn yn adeiladu ar ac yn mynd y tu hwnt i egwyddorion bywyd cyhoeddus a Chod Moeseg Craidd Cyngor Cenedlaethol y Penaethiaid Tân.

**Cwestiwn 7: Ydych chi'n meddwl bod y naratif a'r amcanion yn y bennod materion corfforaethol yn briodol ac yn bwysig?**

Mae GTAGC yn cytuno bod y naratif a'r amcanion yn y bennod materion corfforaethol yn briodol ac yn bwysig. Mae'r pwyslais ar lywodraethu, ar arweinyddiaeth strategol, ac ar atebolrwydd yn adlewyrchu cyfrifoldebau Awdurdodau Tân ac Achub ac yn cefnogi penderfyniadau effeithiol. Mae'r bennod yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i dryloywder, gwerth am arian, a gwelliant parhaus, ac yn cefnogi ein hymgysylltiad â phartneriaid a rhanddeiliaid ar draws y sector cyhoeddus.

**Cwestiwn 8: A oes unrhyw faterion neu amcanion eraill y dylem eu cynnwys yn y bennod hon?**

Mae'r bennod ar faterion corfforaethol yn rhoi trosolwg clir ac ystyriol o gyfrifoldebau llywodraethu ac arweinyddiaeth. Yng nghyd-destun amgylchedd gweithredu newidiol, efallai y bydd cyfle pellach i adlewyrchu'r ffaith bod trawsnewid digidol, gwytnwch seiber, a chynllunio gweithlu tymor hwy yn dod yn fwyfwy perthnasol wrth gefnogi darparu gwasanaethau effeithiol a chynaliadwy. Mae'r meysydd hyn yn dod yn fwy canolog i sut mae gwasanaethau tân ac achub yn rheoli risg, yn cynnal hyder y cyhoedd, ac yn addasu i heriau yn y dyfodol.

Gallai'r bennod hefyd gydnabod yn gliriach werth dysgu sefydliadol strwythuredig a gwaith ymgysylltu cymunedol ystyrlon wrth gryfhau tryloywder ac atebolrwydd. Mae'r dulliau hyn yn bwysig wrth gefnogi gwelliant parhaus ac wrth sicrhau bod trefniadau llywodraethu yn parhau i ymateb i anghenion ac i ddisgwyliadau'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

**Cwestiwn 9: Hoffem glywed eich barn am yr effeithiau y byddai'r cynigion polisi yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Sut y gellid cynyddu effeithiau cadarnhaol, neu'r liniaru effeithiau negyddol?**

Mae GTAGC yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel rhan greiddiol o'n hunaniaeth genedlaethol ac rydym wedi ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, yn unol â Safonau'r Gymraeg.

Mae'r Fframwaith drafft yn cyflwyno nifer o feysydd lle gallai'r cynigion polisi gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg, yn enwedig mewn gweithgareddau atal ac ymgysylltu. Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais ar ymgysylltu â'r gymuned ac ar ddarparu gwasanaethau cynhwysol, ac mae hynny'n cefnogi cyfathrebu dwyieithog, yn enwedig yn ystod prosesau ymgynghori megis y rhai sy'n gysylltiedig â'r CRhRC.

Fodd bynnag, gall yr effaith bosibl ar y Gymraeg amrywio yn dibynnu ar sut mae gwasanaethau unigol yn dehongli ac yn gweithredu'r cynigion. Er enghraifft, gallai newidiadau i ddosbarthiad gwasanaethau — sy'n effeithio ar asedau o fewn cadarnleoedd y Gymraeg — gael canlyniadau anfwriadol i barhad yr iaith. Yn yr un modd, er bod y Fframwaith yn cyfeirio at gynhwysiant ac amrywiaeth, nid yw'n sôn yn benodol am amrywiaeth ieithyddol na'r Gymraeg fel ased diwylliannol.

Er mwyn cynyddu'r effeithiau cadarnhaol ac i liniaru risgiau posibl, byddai cydnabyddiaeth fwy penodol i'r Gymraeg o fewn y Fframwaith yn helpu i sicrhau ystyriaeth gyson ar draws pob gwasanaeth a maes polisi.

Byddai annog integreiddio ystyriaethau iaith Gymraeg o fewn strategaethau cynllunio strategol a strategaethau'r gweithlu yn cefnogi cysondeb ar draws gwasanaethau tân ac achub Cymru ac yn helpu i sicrhau bod yr iaith yn weladwy, yn hygyrch ac yn cael ei hyrwyddo'n weithredol pan fyddwn yn darparu gwasanaethau mewnol ac allanol.

**Cwestiwn 10: Esboniwch hefyd sut rydych chi'n credu y gellid geirio neu newid y cynigion polisi er mwyn cael effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, heb unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac o ran peidio â thrin yr iaith Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Er mwyn cryfhau effaith y Fframwaith, gallai fod yn ddefnyddiol i gynnwys cyfeiriadau mwy uniongyrchol at yr iaith Gymraeg ar draws adrannau perthnasol.

Byddai rhoi cydnabyddiaeth benodol i le'r Gymraeg mewn meysydd megis datblygu'r gweithlu, cyfathrebu â'r cyhoedd, ac ymgysylltu â phlant a phobl hŷn yn helpu i sicrhau bod cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn cael eu diogelu ac yn cael eu hyrwyddo'n weithredol. Byddai hyn hefyd yn cefnogi cydymffurfiad â Chynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg lleol, yn enwedig wrth gyfrannu at Ddeilliant 5: cynyddu cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau.

Mae GTAGC yn parhau i ymroi i hyrwyddo'r Gymraeg drwy gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a thrwy fuddsoddi'n barhaus mewn hyfforddiant staff, adnoddau dwyieithog, ac ymgysylltu cynhwysol. Rydym yn croesawu'r cyfle i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac â phartneriaid i sicrhau bod y Fframwaith yn cefnogi dull cyson a rhagweithiol at gynhwysiant ieithyddol ar draws holl wasanaethau tân ac achub Cymru.

**Cwestiwn 11: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol am y Fframwaith newydd arfaethedig. Os oes gennych unrhyw gwestiynau neu sylwadau perthnasol nad ydyn ni wedi ymdrin â nhw'n benodol, mae croeso i chi eu nodi isod.**

Mae GTAGC yn croesawu cyfeiriad cyffredinol y Fframwaith drafft a'r ffordd y mae'n cyd-fynd â'n dyletswyddau statudol a'n blaenoriaethau strategol. Mae'r Fframwaith yn sylfaen ar gyfer esblygiad parhaus gwasanaethau tân ac achub Cymru, yn enwedig yng nghyd-destun risgiau newidiol a mwy o ddisgwyliadau gan y cyhoedd.

Mae GTAGC yn cydnabod pwysigrwydd cyd-ddeall yr hyn sy'n ffurfio diwylliant cadarnhaol a chynhwysol ar draws gwasanaethau tân ac achub Cymru. Er bod y Fframwaith yn cyfeirio at broffesiynoldeb, didwylledd, cynhwysiant ac arloesi, efallai y byddai'n fuddiol edrych eto yn fanylach ar sut y gallai mynegiad diwylliant ar y cyd gefnogi cysondeb, atebolrwydd a gwelliant sector cyfan.

Mae GTAGC hefyd yn nodi arwyddocâd cynyddol trawsnewid digidol, llywodraethu data, a gwytnwch seiber wrth lunio gwasanaethau cyhoeddus modern. Mae'r meysydd hyn yn fwyfwy canolog i'r ffordd rydym yn cynllunio, yn darparu ac yn sicrhau ein gwasanaethau, ac efallai y dylid rhoi ystyriaeth bellach iddynt yn y fersiwn hwn neu fersiynau'r Fframwaith yn y dyfodol.

Mae GTAGC yn cydnabod pwysigrwydd cynaliadwyedd amgylcheddol ac yn cefnogi egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, gan gynnwys yr angen i ddiogelu bioamrywiaeth ac i leihau allyriadau carbon. Fodd bynnag, rydym fymryn yn bryderus ynghylch sut mae'r Fframwaith yn fframio atal tân a diffodd tân effeithiol fel elfennau o liniaru newid yn yr hinsawdd. Er ein bod yn llwyr gefnogi'r bwriad i leihau effaith amgylcheddol tanau, rydym yn ymwybodol o oblygiadau posibl y fframio hwn – yn enwedig os yw'n arwain at ddisgwyliadau y gallai gwasanaethau tân ac achub fod yn atebol am yr allyriadau o ddigwyddiadau a achoswyd gan eraill neu o ddigwyddiadau na lwyddon nhw i'w hatal.

Mae'r pryder hwn yn cael ei waethygu gan ddatblygiad deddfwriaeth amgylcheddol sydd ddim, fel y deallwn ni, am roi darpariaeth i eithrio gwasanaethau brys rhag rhai cyfyngiadau yn ystod ymateb brys. Mae hyn, ynghyd â chyfeiriad y Fframwaith at graffu gan reoleiddwyr, yn codi cwestiynau ynghylch sut y bydd gwasanaethau brys yn cael eu cefnogi i gyflawni eu cyfrifoldebau amgylcheddol heb gyfaddawdu eu gallu i ymateb yn effeithiol i ddigwyddiadau.

Mae GTAGC yn parhau i ymroi i leihau ein heffaith amgylcheddol ni ein hunain ac i gefnogi nodau cynaliadwyedd cenedlaethol. Fodd bynnag, byddem yn croesawu eglurder a sicrwydd pellach y bydd cyfraniad unigryw a realiti gweithredol gwasanaethau brys yn cael eu hystyried yn briodol wrth weithredu'r Fframwaith hwn a'r ddeddfwriaeth amgylcheddol gysylltiedig.

DRAFT